

# Adroddiad Perfformiad Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

*Atodiad i'r Adroddiad Blynyddol*

Medi 2012 – Mawrth 2013

## **Fersiwn**

Drafft 1

Drafft 2

## **Dyddiad**

Mai 2013

Gorffennaf 2013

## **Awdur**

Fran Lewis, Tîm Gwella a  
Datblygu Corfforaethol

Fran Lewis, Tîm Gwella a  
Datblygu Corfforaethol

## Tabl Cynnwys

1.0	Trosolwg o Berfformiad	3
2.0	Cynnydd Cynllun Corfforaethol 2012 – 2017	11
3.0	Risgiau Corfforaethol	11
4.0	Cytundeb Canlyniad	17
5.0	Dangosyddion Perfformiad	18
6.0	Gweithgarwch Rheoleiddio	24
7.0	6 Thema Allweddol / Gwella Conwy	24
8.0	Crynodeb o Gynnydd Gwasanaethau	25

## 1.0 Trosolwg o Berfformiad

Mae'r Adroddiad Perfformiad Corfforaethol yn manylu ar hunan werthusiad o berfformiad y Cyngor yn seiliedig ar adborth oddi wrth y gefnogaeth a'r sialens sy'n digwydd mewn adolygiadau perfformiad gwasanaeth sy'n cael eu cynnal pob chwe mis. Mae'r Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth yn cefnogi'r gwaith o fonitro ein gweithgareddau a llwyddiannau, ein sefyllfa ariannol a'n perfformiad.

Mae Aelodaeth o'r Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth yn cynnwys y Pennaeth Gwasanaeth a'u Timau Rheoli Gwasanaeth, y Dirprwy Arweinydd, y Deilydd Portffolio Cabinet, Cadeirydd Craffu, cynrychiolydd o'r Tîm Gweithredol, cynrychiolydd cymheiriaid y Pennaeth Gwasanaeth a'r Rheolwr Perfformiad a Gwella Corfforaethol.

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â Medi 2012 - Mawrth 2013.

### 1.1 Llwyddiannau ac Arfer Da a Nodwyd

- Aeth gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol 'GwE' yn weithredol ar 1 Ebrill.
- Yn 2012 bu i'r Gwasanaeth TG dderbyn gwobr TG SOCITM ac am yr ail flwyddyn yn olynol, llwyddodd y Gwasanaeth TG i gynhyrchu gwefan 3\*, sy'n un o'r goreuon yng Nghymru ac sy'n dilyn arfer orau.
- Mae Venue Cymru wedi cyrraedd rhestr fer gwobr cynladwyedd.
- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi rhoi gwobr i ni am y gefnogaeth y bu i ni ei rhoi i Sir Ddinbych yn ystod llyfogydd Rhagfyr 2012.
- Gwobrwywyd y Tîm Cyfathrebu a Marchnata yn Drefnwyr Digwyddiad y Flwyddyn yng ngwobrau Cymdeithas Genedlaethol Digwyddiadau Awyr Agored 2013. Ar y cyd ag Orchard Media & Events Group Ltd, enillodd y Tîm hefyd wobwr Partneriaeth Gynhyrchu'r Flwyddyn am eu gwaith yn cynnal Access All Eirias yn 2012.
- Mae Rali GB Cymru yn dychwelyd i Landudno.
- Mae fforwm Rheolwyr canol wedi ei sefydlu. Mae adborth cadarnhaol wedi ei dderbyn yn dilyn y cyfarfod cyntaf.
- Mae arolwg staff wedi ei gwblhau ac mae'r canlyniadau ar y cyfan yn gadarnhaol iawn.
- Aeth iTrent yn fyw ym mis Mawrth 2013. Mae'r gwaith o gyflwyno'r ail gam, recriwtio a llunio ffurflenni teithio yn cael ei wneud ar hyn o bryd.
- Mae cynllun ceir gwyrdd staff bellach yn fyw.
- Mae Adnoddau Dynol a Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol wedi datblygu a rhoi cwrs Hyfforddiant Rheoli Newid Conwy ar brawf ym mis Ebrill.
- Mae Bwrdd sgiliau strategol wedi ei sefydlu a bydd yn ceisio cynyddu nifer y prentisiaethau sydd ar gael ac ystyried dewisiadau fel teithio gyda chymhorthdal. Mae cynllun bidio wedi ei roi yn ei le i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o brentisiaethau.
- Mae rheolwr Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus wedi ei benodi i adolygu Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.
- Ers defnyddio'r feddalwedd TG priodol o fewn Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau ym mis Mawrth 2012, mae dros 7,500 (13.83%) o drethdalwyr yng Nghonwy yn derbyn eu biliau Treth y Cyngor yn electronig. Mae Conwy wedi cyrraedd brig arolwg ymgyrchoedd e-filio'r DU.
- Fel rhan o Gam 1 Prosiect Rheoli Dogfennau Electronig (EDM) mae'r Gwasanaethau Amgylcheddol, Datblygu a Rheoli wedi rhoi'r system newydd ar brawf. Mae disgwyl i Ystadau a Chynllunio ddefnyddio'r system ar ddechrau 2013/14.

**1.2 Materion allweddol ble mae gwaith yn mynd rhagddo i symud ymlaen â darparu / gwella:**

<b>Problem</b>	<b>Arweinydd(wyr) Gweithredu</b>
1. Mae'r wasgfa ariannol yn parhau i fod yn broblem sylweddol i'r Awdurdod. Mae Grwpiau Adolygu Cyllideb wedi cael eu sefydlu ar gyfer pob maes gwasanaeth. Mae arbedion effeithlonrwydd 2012/13 wedi eu cyflawni ond mae rhagor o heriau o'n blaenau i gwrdd â thargedau arbedion effeithlonrwydd pellach.	Uwch Dîm Rheoli
2. Byddwn yn parhau i ddatblygu cynllun prosiect er mwyn darparu gofod swyddfa.	Cyfarwyddwr Strategol Cyllid ac Effeithlonrwydd
3. Mae'r Cyfarwyddwyr Strategol yn adolygu pob mesur perfformiad sy'n tanberfformio.	Grŵp Gweithredol
4. Mae angen cwmpasu atodlen prosiect i gael rhagoriaeth mewn gwasanaeth cwsmer ar draws yr Awdurdod.	Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid a Gwybodaeth Corfforaethol
5. Mae'r Strategaeth TGCh wedi ei drafftio ac yn cael ei hystyried gan y Cyfarwyddwr Strategol. Bydd yn cael ei chyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli ar gyfer ymgynghori ym mis Medi.	Pennaeth TGCh
6. Mae ar bob gwasanaeth angen gwella'r ffordd y maent yn cofnodi canmoliaethau.	Uwch Dîm Rheoli
7. Mae Gwasanaeth Theatrau a Chanolfan Gynadledda wedi llunio adroddiad i roi sicrwydd ynglŷn â'r strwythur prisio o'i gymharu â lleoliadau lleol eraill. Bydd y gwasanaeth hefyd yn ystyried a oes cyfle i werthu eu harbenigedd.	Rheolwr Cyffredinol Theatrau a'r Ganolfan Gynadledda
8. Mae Achos Busnes argyfyngau sifil ar y cyd wedi ei gymeradwyo, bydd y gwasanaeth yn gweithio gyda thimau cyfagos i'w weithredu.	Cyfarwyddwr Strategol Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi
9. Mae'n rhaid i bob gwasanaeth sicrhau bod y tîm cyfathrebu a marchnata yn ymwybodol o brosiectau allweddol ac yn rhoi gwybod i swyddogion y wasg ynglŷn â mentrau allweddol.	Uwch Dîm Rheoli
10. Mae angen cynnal arolwg i safoni taliadau mewnol am gostau gwasanaethau.	Cyfarwyddwr Strategol Economi a Lle
11. Mae angen adolygu dyraniad grantiau i'r trydydd sector.	Cyfarwyddwr Strategol Cyllid ac Effeithlonrwydd
12. Nid oes gan Gofnodion Modern ac Archifau ddigon o le storio. Mae'r gwasanaeth yn adolygu eu dewisiadau o ran storfeydd, gan sicrhau bod gan bob gwasanaeth atodlen gadw ac ystyried y dewisiadau o fewn System Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electronig (EDRM).	Pennaeth y Gwasanaeth Datblygu Cymunedol
13. Bydd arolwg o amllder mesuriadau perfformiad yn cael ei gynnal.	Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol
14. Mae Cytundeb Canlyniadau newydd gyda	Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol

Llywodraeth Cymru yn cael ei ddrafftio ar gyfer 2013-2016.	
15. Mae angen ystyried a oes angen adolygu a rhesymoli partneriaethau strategol.	Grŵp Gweithredol
16. Mae ar bob gwasanaeth angen adolygu'r hyfforddiant rheoli gwybodaeth ar-lein.	Uwch Dîm Rheoli

### 1.3 Perfformiad Corfforaethol – Busnes fel Arfer

#### ALLWEDD CAMAU:

Dim cynnydd o ran y cam gweithredu / mae pryderon wedi cael eu lleisio	Coch
Mae cynnydd o ran y cam gweithredu a does dim pryderon wedi eu lleisio	Oren
Mae'r cam gweithredu wedi ei gwblhau	Gwyrdd

#### ALLWEDD PERFFORMIAD:

Coch – o dan bwynt ymyrraeth	Coch
Oren – Rhwng Ymyrraeth a'r Targed	Oren
Gwyrdd – Uwch na'r Targed	Gwyrdd

Cyf	Teitl	Ein canlyniadau yn 11/12	Targed 12/13	Ein canlyniadau yn 12/13	Cyfartaledd Cymru	Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru	COG
GM 1	Cyfradd Cyflawni Adolygiadau Datblygu Perfformiad Blynyddol.	70.47%	80%	68.77			Oren
GM2	Arbedion ar y gyllideb	£5.954 miliwn	£5.454 miliwn	£5.454 miliwn			Gwyrdd
GM3	Nifer y diwrnodau gwaith/sifftiau a gollwyd i absenoldeb salwch am bob gweithiwr cyfystyr â llawn amser	9.97	9.50	10.18	10.55	8 o blith 18	Coch
M8.3a	Canran y cwynion y llwyddwyd i'w datrys yng ngham 1	90%	90%	89.0%		2/5	Oren
M8.3b	Nifer y cwynion a dderbyniwyd	591	689	538		2/3	Coch

Cyf	Teitl	Ein canlyniadau yn 11/12	Targed 12/13	Ein canlyniadau yn 12/13	Cyfartaledd Cymru	Sut ydym yn cymharu yn cymharu â gweddill Cymru	COG
CHS1	Nifer y damweiniau a digwyddiadau a nifer y damweiniau a osgowyd	1,614		1,735			

Cynhaliwyd prosiect Rheoli Iechyd a Diogelwch Corfforaethol o fis Hydref 2010 tan fis Mai 2013. Mae cynllun cyfathrebu manwl a chadarn wedi codi ymwybyddiaeth o'r angen i roi gwybod am bob damwain a digwyddiad. Mae'r holl ysgolion sylfaen yn prynu cytundeb lefel gwasanaeth y Gwasanaethau Addysg ac felly'n rhoi gwybod i CBSC am unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad. Mae'r ddwy fenter wedi dylanwadu ar y ffigyrau sydd wedi eu nodi.

CHS4ii	Cyfanswm nifer y damweiniau / digwyddiadau a nodwyd: b) ar gyfer y Cyngor cyfan	12		24			
CHS5	Cydymffurfiaeth ag Arolwg Safle Iechyd a Diogelwch Canran cydymffurfio rhannol			6.0%			
CHS6	Cydymffurfiaeth ag Arolwg Safle Iechyd a Diogelwch Canran dim cydymffurfiaeth			1.8%			

Fel rhan o'r system gofnodi iechyd a diogelwch mae holl safleoedd CBSC, tua 180, yn gorfod hunan archwilio yn

erbyn y safonau cydymffurfio. Mae'r safleoedd hynny nad ydynt yn cydymffurfio'n llawn yn cymryd y camau gweithredu i fynd i'r afael â meysydd lle nad oes cydymffurfio neu lle mae cydymffurfiaeth rannol. Mae cynnydd y camau gweithredu hyn yn cael ei fonitro gan y Tîm Rheoli Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Gwella Corfforaethol 2 ym mis Tachwedd a bydd yn cynnwys ymateb manylach ar ddata damweiniau.

#### 1.4 Cynllun Corfforaethol 2012 – 2017 Trosolwg

Mae'r tabl hwn yn cyflwyno trosolwg lefel uchel o'r asesiad o gynnydd a wnaed wrth weithredu'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r cynnydd wedi ei ddisgrifio'n fanylach yn Adroddiad Blynyddol 2012/13.

Canlyniad 1 – Mae pobl yng Nghonwy'n derbyn addysg ac mae ganddynt sgiliau				Canlyniad 2 – Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel			
A1.1	Oren	M1.1	Gwyrdd	A2.1	Gwyrdd	M2.1	Gwyrdd
A1.2	Oren	M1.2a	Gwyrdd	A2.2	Oren	M2.2	Gwyrdd
A1.3	Oren	M1.2b	Coch	A2.3	Oren	M2.3	Gwyrdd
A1.4	Oren	M1.3	Gwyrdd	A2.4	Oren	M2.4	Oren
A1.5	Oren	M1.4	Gwyrdd			M2.5	Gwyrdd
A1.7	Oren	M1.5	Coch				
A1.8	Oren	M1.6a	Gwyrdd				
		M16b	Oren				
		M1.7	Gwyrdd				
		M1.8	Gwyrdd				
		M1.9	Oren				
Canlyniad 3 – Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas				Canlyniad 4 – Mae pobl yng Nghonwy'n iachach yn annibynnol			
A3.1	Oren	M3.1	Oren	A4.1	Oren	M4.1	Gwyrdd
A3.2	Oren	M3.2	Gwyrdd	A4.2	Oren	M4.2a	
A3.3	Coch	M3.3	Oren	A4.3	Oren	M4.2b	
A3.4	Oren	M3.4a		A4.4	Oren	M4.3	Gwyrdd
A3.5	Oren	M3.4b				M4.4	Oren
A3.6	Oren	M3.5	Oren			M4.5	Oren
A3.7	Oren	M3.6	Coch				
		M3.7	Gwyrdd				
		M3.8					

Canlyniad 5 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Sir gydag economi ffyniannus				Canlyniad 6 – Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy			
A5.1	Oren	M5.1a	Gwyrdd	A6.1	Gwyrdd	M6.1	Gwyrdd

					d		
A5.2	Oren	M5.1b	Gwyrdd	A6.2	Oren	M6.2	Gwyrdd
A5.3	Oren	M5.2	Gwyrdd	A6.3	Oren	M6.3	Oren
A5.4	Oren	M5.3	Oren	A6.4	Oren	M6.4a	
A5.5	Oren	M5.4	Oren	A6.5	Oren	M6.4b	
A5.6	Oren	M5.5	Gwyrdd	A6.6	Oren	M6.5	Coch
		M5.6	Gwyrdd			M6.6	Gwyrdd
		M5.7				M6.7	Gwyrdd
						M6.8	Gwyrdd

<b>Canlyniad 7 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu</b>				<b>Canlyniad 8 – Mae Pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais</b>			
A7.1	Oren	M7.1a	Gwyrdd	A8.1	Oren	M8.1	Gwyrdd
A7.2	Oren	M7.1b	Gwyrdd	A8.2	Oren	M8.2	Gwyrdd
A7.3	Oren	M7.2	Coch	A8.3	Oren	M8.3a	Oren
		M7.3	Oren	A8.4	Oren	M8.3b	Coch
		M7.4	Gwyrdd	A8.5	Oren	M8.4	Gwyrdd
		M7.5				M8.5	Coch
						M8.6	
						M8.7	
<b>Blaenoriaethau Cyffredinol</b>							
GA1	Oren	GM 1	Oren				
GA2	Oren						
GA3	Oren						
GA4	Oren						

### 1.5 Bwrdd Gwella Corfforaethol 1

Mae'r tablau isod yn cynrychioli trosolwg lefel uchel o'r asesiad o'r cynnydd (Awst 2012 – Mehefin 2013) o ran gweithredu'r prif brosiectau a rhaglenni sy'n cyfrannu at Ganlyniadau'r Cynllun Corfforaethol. Mae Bwrdd Gwella Corfforaethol 1 a 2 yn monitro'r prosiectau a'r rhaglenni. Mae'r crynodeb lefel uchel hwn o'r cynnydd yn cael ei roi ar brawf, felly nid yw pob tamaid o wybodaeth ar gael ar hyn o bryd (bydd yr wybodaeth yn cael ei chynnwys mewn adroddiadau perfformiad yn y dyfodol).

<b>ALLWEDD</b>	
<b>GWYRDD</b>	Mae elfen hon o'r rhaglen / prosiect yn iawn ar hyn o bryd
<b>OREN</b>	Problemau posib wedi eu canfod
<b>COCH</b>	Problemau penodol wedi eu canfod
<b>GWYN</b>	Ni ofynnwyd am / derbyniwyd adroddiad amlygu yn ystod y cyfnod chwe mis

	Cyllideb	Amserlen	Y cyfnod adrodd hwn	Statws Goddefiant y Prosiect	Materion	Risgiau	Capasiti Adnoddau	Gwireddu Buddiannau	Camau a gymerwyd i ymgorffori newid
<b>Addysg a Sgiliau</b>									

Rhaglen Sgiliau										
Datblygu Gweithlu	○	○	○	○	○	○	○			
Strategaeth TGCh										
Ysgolion yr 21ain Ganrif – Ysgol y Gogarth	○	○	○	○		○	○			
Gwasanaethau Preswyl Cyfun i Blant gydag Anableddau	○	○	○	○		○	○			
Gwaith Amdani (Cyllid Genesis 2, y Porth Ymgysylltu, Taith i Waith a Chymunedau'n Gyntaf)	○	○	○	○		○	○			
	C	○	○	○		○	○			
	Cyllideb	Amserlen	Y cyfnod adrodd hwn	Statws Goddefiant y Prosiect	Materion	Risgiau	Capasiti Adnoddau	Gwireddu Buddiannau	Camau a gymerwyd i ymgorffori newid	
<b>Economi Lewyrchus</b>										
Caffael yn cynnwys Gwasanaeth Caffael Rhanbarthol a Chaffael Ysgolion 21 Ganrif ar y Cyd	○	○	○	○		○	○			
Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf	○	○	○	○		○	○			
Cymunedau yn Gyntaf	○	○	○	○		○	○			
Cefnogi Busnes	○	○	○	○		○	○			
Strategaeth Cludiant Integredig (yn cynnwys Cynllun Cludiant Cymunedol)										
Prosiect Cludiant Cydweithredol Gogledd Cymru (gan gynnwys Astudiaeth Ddichonoldeb, Cludiant Ôl-16, Caffael Cerbydau ym Mherchnogaeth yr Awdurdod, Cludiant Teithwyr Rhanbarthol a Diogelwch y Ffordd Rhanbarthol) (OA)	○	○	○	○		○	○			
Datblygu Strategaeth Ddigwyddiadau										
Rheoli Cyrchfannau (OA)										
Partneriaeth Gwledig – CDG2	○	○	○	○		○	○			
Rhaglen Cyffordd Llandudno	○	○	○	○		○	○			
Rhaglen Conwy										
Rhaglen Llanrwst										
Rhaglen Bywyd y Bae	○	○	○	○		○	○			
Glan y Môr Bae Colwyn										
Cronfa Adfywio Cymunedol	○	○	○	○		○	○			
Uchelgais Economaidd										
	Cyllideb	Amserlen	Y cyfnod adrodd hwn	Statws Goddefiant y Prosiect	Materion	Risgiau	Capasiti Adnoddau	Gwireddu Buddiannau	Camau a gymerwyd i ymgorffori newid	
<b>Amgylchedd Cynaliadwy</b>										
Bwrdd Rhaglen Gwastraff (OA)	○	○	○	○		○	○			
Bwrdd Rhaglen Werdd	○	○	○	○		○	○			
Cynllun Rheoli Carbon										
TGCh (Caffael ar y Cyd)										



Gwasanaethau Cyfreithiol										
Rhaglen Trawsnewid Busnes	○	○	○	○	○	○	○			
Parciau Gwledig a Gwarchodfeydd Natur										
Cynlluniau Lliniaru Llifogydd										
<b>Iaith, Diwylliant a Threftadaeth</b>										
Strategaeth Treftadaeth	○	○	○	○	○	○	○			
Annog Pobl i Siarad Cymraeg										
<b>Strategaethau / Cynlluniau Canmoliaethau</b>										
Un Conwy 2012-2025										

## 1.6 Bwrdd Gwella Corfforaethol 2

	Cyllideb	Amserlen	Y cyfnod adrodd hwn	Statws Goddefiant y Prosiect	Materion	Risgiau	Capasiti Adnoddau	Gwireddu Buddiannau	Camau a gymerwyd i ymgorffori newid
<b>Diogel ac yn Teimlo'n Ddiogel</b>									
Prosiect TCC (wedi ei ddirwyn i ben)	○	○	○	○	○	○			
Cynllunio Rhag Argyfwng	○	○	○	○	○	○			
Prosiect Iechyd a Diogelwch (Prosiect wedi ei gwblhau a'i ddirwyn i ben)	○	○	○	○	○	○			
Gwasanaeth Safonau Masnach Rhanbarthol									
<b>Tai Diogel ac Addas</b>									
Rhaglen Tai									
Prosiect Digartrefedd									
Cynllun Datblygu Lleol									
<b>Iach ac Annibynnol</b>									
Rhaglen Moderneiddio'r Gwasanaethau Cymdeithasol	○	○	○	○	○	○			
Tai Gofal Ychwanegol	○	○	○	○	○	○			
Gwaith ar y Cyd y Tîm Dyletswydd Brys									
Cynlluniau Ardal	○	○	○	○	○	○			
Strategaeth Creu Conwy Egniol yr Awdurdod Lleol	○	○	○	○	○	○			
	Cyllideb	Amserlen	Y cyfnod adrodd hwn	Statws Goddefiant y Prosiect	Materion	Risgiau	Capasiti Adnoddau	Gwireddu Buddiannau	Camau a gymerwyd i ymgorffori newid
Bwrdd Rhaglen Rhanbarthol Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu Llif Gwaith NWSSIC) yn cynnwys Grŵp Cefnogi Teuluoedd Rhanbarthol Gogledd Cymru a HECS									
<b>Gwybodus, Wedi Eu Cynnwys ac yn Cael Gwrandawriad</b>									
Rhaglen Cwsmeriaid	○	○	○	○	○	○			

Moderneiddio Llyfrgelloedd ( <i>prosiect yn rhan o Raglen Cwsmeriaid ond yn adrodd ar wahân</i> )	○	○	○	○	○	○			
Cynllun Cydraddoldeb Strategol	○	○	○	○	○	○			
Rhaglen Gwerthfawrogi Staff (Amh.)	○	○	○	○	○	○			

## 1.7 Cwestiynau Allweddol a Draffodwyd yn yr Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth:

Rhodddwyd sicrwydd gan bob Gwasanaeth ynglŷn â'r cwestiynau allweddol canlynol sy'n ymwneud â safoni:

### 1. Hunanwerthusiad Gwasanaethau

Mae gwasanaethau yn defnyddio dulliau hunanwerthuso gwahanol. Cafwyd sicrwydd bod pob gwasanaeth yn ymgymryd â hyn. Mae'r dulliau a ddefnyddir yn cynnwys SWOT, trafodaethau tîm rheolaidd, archwilio gwaith achos, ffurflenni adborth ar y wefan ac arolygiadau gwasanaeth. Mae gwasanaethau hefyd yn defnyddio data meincnodi e.e. APSE, SOCITM, LExcel, CIPFA, ac yn defnyddio rhwydweithiau proffesiynol i rannu a derbyn syniadau. Mae monitro perfformiad yn dibynnu ar waith y gwasanaeth ac mae'n amrywio o fonitro misol i fonitro bob chwe mis. Mae pob gwasanaeth yn darparu gwybodaeth i Aelodau Etholedig trwy bwyllgorau ffurfiol. Mae ar rai gwasanaethau angen ysgrifennu Adroddiadau Blynyddol a chyflwyno gwybodaeth i reoleiddwyr allanol e.e. Bwrdd yr Iaith, AGGCC. Nodwyd fod ar TGCh a Theatrau a'r Ganolfan Gynadleddau angen cyflwyno adroddiadau i Bwyllgorau yn amlach.

### 2. Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb wedi eu cynnal ar gyfer meysydd prosiect / polisi penodol. Mae staff penodol o fewn adrannau wedi derbyn hyfforddiant. Mae gwybodaeth ddemograffig ar gael yn gorfforaethol i gefnogi gofynion Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb. Roedd cytundeb cyffredinol bod gwasanaethau yn rheoli'r hyn sydd angen ei asesu ac yn dilyn y prosesau perthnasol i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau, eu hadolygu a'u ffurfioli. Mae arnom hefyd angen tystiolaeth o newidiadau yn sgil Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb.

### 3. Argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru heb eu cwblhau o fewn amserlen y cynllun gweithredu

Mae gwasanaethau yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd o ran argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru pob chwe mis. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi herio pob cam gweithredu sydd wedi eu llunio dros ddwy flynedd yn ôl. Bydd adroddiadau rheolaidd yn dal i gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a byddent yn amlygu unrhyw gam gweithredu sydd wedi mynd heibio'r terfyn amser. Derbyniwyd sicrwydd bod yr argymhellion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae gan Archwilio Mewnol raglen o archwiliadau dilynol i ddarparu dilysiad pellach.

### 4. Rheoli Gwybodaeth (*Mae'r Strategaeth Gwybodaeth ddrafft yn diffinio hyn fel "Mae Rheoli Gwybodaeth yn disgrifio'r dull y mae sefydliad yn cynllunio, casglu, cadw, defnyddio, rheoli, lledaenu, rhannu a chael gwared ar wybodaeth yn effeithlon, a thrwy hynny yn sicrhau bod gwerth yr wybodaeth honno yn cael ei hadnabod a'i defnyddio i'r graddau llawnaf posibl".*)

Mae'r Strategaeth Gwybodaeth wedi ei drafftio ac yn cael ei hystyried gan y Cyfarwyddwr Strategol. Mae gan y rhan fwyaf o wasanaethau systemau rheoli i reoli eu gwybodaeth. Mae pob gwasanaeth yn gweithredu proses i adolygu a diweddarau atodlen gadw. Mae trefniadau cyfrinachedd a diogelwch yn eu lle ond roedd cytundeb cyffredinol bod sefydlu bwrdd rheoli gwybodaeth a llunio strategaeth gorfforaethol wedi ei groesawu ac y byddai'n annog pob gwasanaeth i adolygu/diweddarau eu trefniadau i sicrhau eu bod yn dal yn addas. Er enghraifft,

nid oes system i gategoreiddio lefel diogelwch gwybodaeth. Adain Diwylliant a Gwybodaeth y Gwasanaeth Datblygu Cymunedol yw'r arweinydd corfforaethol ar gyfer cadw gwybodaeth ac mae'n blaenoriaethu'r gwasanaethau ac arnynt angen cymorth. Ar hyn o bryd mae yna systemau yn eu lle ond nid oes dogfennau ffurfiol ar lefel y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae gan bob gwasanaeth Swyddog Cyswllt Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth ac mae Hyfforddiant Rheoli Gwybodaeth ar gael ar-lein unwaith eto. Mae problem o ran diffyg lle i gadw ffeiliau papur. Mae angen ystyried gwerth a chost sganio dogfennau. Rydym yn defnyddio rhaglen Egress i anfon gwybodaeth gyfrinachol drwy e-bost. Mae gan TG gofrestr asedau rheoli gwybodaeth a rhagwelir y bydd cyflwyno'r prosiect EDM yn cefnogi rheoli gwybodaeth. Mae'r Gwasanaeth Cofnodion Modern ar hyn o bryd yn ceisio llunio cynllun ffeilio a datblygu system fynegeio.

## **5. Technegau strwythuredig i hwyluso newid / effeithlonrwydd**

Nodwyd effeithlonrwydd cyllidebol a gwasanaeth cwsmer fel y prif gymhellwyr. Mae gweithgorau cyllideb wedi eu sefydlu ar gyfer yr holl wasanaethau allweddol i herio effeithlonrwydd ariannol. Defnyddir Fframwaith Prosiect a Rhaglen ar gyfer mentrau newid. Mae rhai gwasanaethau yn defnyddio proses barhaus i weld sut mae modd gwneud prosesau'n fwy effeithlon e.e. herio beth, pam a phryd. Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau wedi dweud eu bod yn defnyddio eu synnwyr cyffredin i adolygu eu prosesau ac i asesu canlyniadau ystadegol eu perfformiad. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd pa mor hanfodol yw gweithio gyda'r staff/cwsmeriaid a effeithir fel bod modd iddynt gael eu cynnwys. Mae enghreifftiau o arfer da yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda staff rheng flaen i ofyn iddynt a oes unrhyw broblem a beth ellir ei wella. Un o amcanion Adolygiadau Datblygiad Perfformiad aelodau staff yr Adain Adnoddau Dynol yw ystyried maes y gellir ei wella / canfod arbedion effeithlonrwydd ynddo. Mae Gwasanaeth y Gyfraith a Llywodraethu wedi gofyn i'w staff ystyried ffyrdd o gynyddu incwm.

Mae Theatrau a'r Ganolfan Gynadledda wedi cael budd o hyfforddiant 'Tîm Gwella Busnes' sy'n cael ei gynnal am ddim gan Goleg Glannau Dyfrdwy. Cafodd y tîm chwe diwrnod o hyfforddiant ffurfiol lle bu iddynt ddysgu sut i gynllunio a gweithredu newid, sut i annog eraill i dderbyn newid fel peth cadarnhaol a sut i sicrhau nad yw unrhyw newid cynlluniedig yn arwain at risg ariannol neu gorfforol (iechyd a diogelwch). Yn dilyn yr hyfforddiant bu i'r tîm weithio ar brosiectau i weithredu newid a fydd yn arwain at welliannau yn y ffyrdd maent yn gweithio a/neu at arbedion effeithlonrwydd. Mae grŵp ar hyn o bryd yn edrych ar y gwastraff sy'n cael ei gludo i safleoedd tirlenwi. Ym mis Medi bydd rhai o staff Bwyd a Diod yn derbyn hyfforddiant 'Tîm Gwella Busnes' i edrych ar symleiddio prosesau a chanfod effeithlonrwydd o fewn eu hadran. Mae staff sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant Tîm Gwella Busnes yn ennill sawl cymhwyster gan gynnwys NVQ. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi defnyddio model rheoli newid cynaliadwy ac ymagwedd meddwl drwy system i edrych ar y ffordd maent yn canolbwyntio ar y cleient/cwsmer ac ar brofiad ymarferwyr. Defnyddiwyd Fframwaith Ansawdd Cwsmer ar gyfer prosiect derbynfa ar y cyd yn y Swyddfa Ddinesig.

## **6. Unrhyw rwystr sy'n cyfyngu syniad arloesol**

Ar wahân i'r cyfyngiadau cyllidebol, mae rhai gwasanaethau wedi dweud bod capasiti yn rhwystr sylweddol. Mae cyfeiriad strategol ansicr Bil Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r adolygiad Addysg hefyd yn cyfyngu ar eu gallu i gynllunio. Gall cyfyngiadau angenrheidiol diogelwch TG arafu gweithgarwch TG yn ogystal â chyfyngiadau daearyddol signalau 3G/4G. Gall swyddfeydd mewn hen adeiladau hefyd gyfyngu'r defnydd o wifi. Roedd cyfathrebu yn rhwystr allweddol – sicrhau bod sianeli cyfathrebu ar agor ar gyfer cyflwyno syniadau. Gall newidiadau i reoliadau y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw hefyd gyfyngu ar welliannau posib. Mae angen monitro nifer y personél sydd eu hangen i hwyluso gweithio rhanbarthol – gall cynnydd mewn personél gyfyngu ar arbedion y gellir eu gwneud. Dywedodd Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau bod modd iddynt gyflawni arbedion o fewn asesiadau ariannol gofal cartref a phreswyl cyn belled â bod modiwl cyllid PARIS yn cael ei ddatblygu ymhellach. Gall y Gwasanaethau Cymdeithasol wella

prosesau gwaith cymdeithasol mewn ysbytai pe bai mynediad gwell at TG. Ar hyn o bryd mae'n rhaid iddynt asesu'r cleient, cerdded ar draws y maes parcio, mewnbynnu ac argraffu'r wybodaeth yn eu swyddfa a cherdded yn ôl drwy'r maes parcio i'r ward. Mae rhannu gwybodaeth yn dal yn her fawr i'r Gwasanaethau Cymdeithasol e.e. nid yw lechyd yn defnyddio system e-bost diogel. Mae Archwilio Mewnol yn fodlon derbyn unrhyw gais i adolygu'r angen am lofnodion ar bapur os yw llofnodi dogfennau yn atal defnyddio prosesau electronig.

## 2.0 Cynnydd Cynllun Corfforaethol 2012 – 2017

Gwelwch Adroddiad Blynyddol 2012-13

## 3.0 Risgiau Corfforaethol



Caiff risgiau corfforaethau eu logio a'u monitro ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol y gellir ei chael oddi wrth y Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol. Caiff y Gofrestr Risg Corfforaethol ei hadolygu yn rheolaidd gan Uwch Reolwyr, ac yna ei thrafod ar wahân mewn cyfarfod gyda'r Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd a'n rheoleiddwyr allanol. Cyflwynir adroddiad ar wahân mwy manwl ar y Gofrestr Risg Corfforaethol i Aelodau trwy'r broses ddemocrataidd pob chwe mis.


Mae'r tîm wedi bod yn gweithio'n galed i ddatblygu cofrestr risg trwy feddalwedd rheoli perfformiad Llywodraeth Cymru, Ffynnon. Mae Conwy wedi bod yn gweithredu fel yr Awdurdod Lleol Arweiniol dros Gymru ar ei ddatblygiad. Rydym bellach wedi ffurfio Cofrestr Risg Corfforaethol dan benawdau'r 8 Canlyniad Dinasyddion.










Darperir adroddiad llawn ar y Gofrestr Risg Corfforaethol ar wahân, ac mae ar hyn o bryd yn cael ei graffu ddwywaith y flwyddyn gan y rheoleiddwyr allanol. Mae risgiau newydd a ddeilliodd o'r Adolygiadau Perfformiad wedi eu crynhoi isod. ***Dylid nodi eu bod dal yn destun craffu ac asesu sgoriau, ac efallai y gallent newid.***

Cyf. Risg Newydd	Disgrifiad	Risg Cynhenid
1	Y risg na fyddem yn llwyddo i orffen adfywio Ardal Bae Colwyn oherwydd yr ansicrwydd ynghylch cyllid Llywodraeth Cymru.	B1
2	Y risg y byddai cyrhaeddiad addysg yn gostwng o ganlyniad i newidiadau i Addysg yn sgil Adolygiad Robert Hill.	
3	Y risg y byddai'r ansicrwydd ynghylch Comisiynau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael effaith ddigalon ar y Cyngor.	C2
4	Y risg y byddai moderneiddio gwasanaethau yn creu her o ran capasiti i wasanaethau cefnogi.	B3
5	Y risg y byddai newidiadau i'r gwasanaeth iechyd yn cynyddu'r galw ar Wasanaethau Cymdeithasol.	

### Allwedd:

Lliw	Disgrifiad		
		Cynnydd yn y sgôr risg cynhenid	
Porffor	Tynnu o'r gofrestr	Dim newid yn y sgôr risg cynhenid	

Melyn	Newid yn y sgôr	Gostyngiad yn y sgôr risg cynhenid	
-------	-----------------	------------------------------------	---

Cyf. Risg Newydd	Cyf. Risg	Ymagwedd	Risg Cynhenid	Risg Gweddilliol	Sgôr Risg	Newid yn y sgôr	Sut ydym yn rheoli'r risg?
		<b>Effeithlon ac wedi'u rheoli'n dda</b>					
EW01	CR001	Rheoli Gwleidyddol – y risg y byddai'r Cyngor yn methu canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r materion strategol a'r blaenoriaethau.	B1	C1			3
EW02	CR006 -	Capasiti a Gallu – y risg na fydd gennym gynlluniau digonol ar gyfer cynllunio olyniaeth a datblygu gweithlu ac y byddai hynny'n arwain at ddiffyg sgiliau.	B1	C3			3
EW03	CR008a -	Parhad Busnes – y risg y byddai diffyg cyfleusterau ar gyfer Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb yn arwain at ymatebion annigonol ac amhriodol i argyfyngau.	B1	D1			3
EW04	CR011 -	Y risg y byddai'r Cyngor yn cadw at bolisiau a threfnau mewn modd anghyson.	B3	C3			3
EW05	CR017 -	Y risg na fyddai Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn effeithiol ac yn cael ei reoli'n dda.	B2	B2			3
EW06	CR026 -	Cytundebau Canlyniad – y risg na fyddai Llywodraeth Cymru yn beirniadu ein cytundebau canlyniad yn llwyddiannus.	A3	C3			3
EW07	CR030 -	Moderneiddio Gwasanaethau – y risg y byddem yn methu gwneud penderfyniadau anodd yn ymwneud â gofynion moderneiddio gwasanaeth neu y bydd lleihad mewn adnoddau neu alw.	B1	B1			3
EW08	CR041d	Y risg na fydd Rhaglen Cyllid Strwythurol yr UE yn cydnabod blaenoriaethau Conwy.	B2	B2			3
EW08	CR049b -	Y risg y byddai'r gostyngiad yn swm y budd-daliadau a delir yn arwain at ôl-ddyledion treth y Cyngor a chynnydd yng nghostau casglu.	A1	E5			3
EW09	CR049d -	Y risg na fyddai'r cynllun sy'n dod yn lle Cynllun Budd-daliadau Treth y Cyngor yn cael ei weithredu tan 1 Ebrill 2013.	A2	E5			4



<b>Cydweithredu</b>							
<b>C01</b>	CR002 -	Partneriaeth – y risg na fydd uwch gynrychiolwyr cyrff perthnasol yn arddangos ymrwymiad i bennu amcanion a darparu cefnogaeth i gyflawni'r amcanion cytunedig a'r amcanion a rennir.	B2	D3		↔	2
<b>C02</b>	CR002a -	Partneriaeth – y risg y byddai diffyg trefniadau Llywodraethu Partneriaeth yn effeithio ar enw da a chyllid CBSC, ac ar lechyd a Diogelwch Awdurdodau Lleol.	B2	C2		↓	3
<b>C03</b>	CR002c -	Partneriaeth – y risg y bydd diffyg ymrwymiad priodol i gynllunio a mapio gwasanaethau.	B1	B1			4
<b>C04</b>	CR004 -	Rhaglen Ranbartholi – y risg y byddem yn methu darparu compact Cymru Gyfan ynglŷn â Gweithio ar y Cyd a'r Compact Cydweithredu Rhanbarthol.	B1	D3		↓	2
<b>C05</b>	CR016 -	Cydweithredu – y risg y byddai gwaith ar y cyd yn creu her i'r gwasanaethau a'r gwasanaethau cefnogi cysylltiedig.	A3	B3		↔	3
<b>C06</b>	CR047a -	Rhannu Gwasanaethau rhwng Cyngorau – y risg y byddai isadeiledd TG anghydnaws yn atal cynnydd gweithio ar y cyd.	B2	C3			3

### Canlyniad 1 – Mae pobl yng Nghonwy'n derbyn addysg ac mae ganddynt sgiliau







<b>ES01</b>	CR035 -	Cyllid Moderneiddio – y risg na fyddai gan y Cyngor ddigon o arian i ddarparu rhaglen foderneiddio ysgolion sy'n diwallu anghenion cymunedau.	A1	C2		↔	3
<b>ES02</b>		Risg mewn perthynas â'r gyfran o'r garfan flynyddol o blant sy'n cyrraedd diwedd eu cyrsiau yng Nghyfnod Allweddol 2 yn methu cyrraedd y safon sydd o fewn eu gallu ac felly'n methu cyrraedd eu potensial.	C1	D1			

### Canlyniad 2 – Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel






<b>SFS01</b>	CR008 -	Argyfyngau Sifil – y risg na fyddem yn gallu ymateb yn briodol i argyfyngau e.e. pandemig ffliw, llifogydd ac ati.	B1	D1		↔	3
<b>SFS02</b>	CR009 -	lechyd a Diogelwch – materion lechyd a Diogelwch ddim yn cael eu hadnabod a'u rheoli.	C1	E4		↓	3

	NR01(12/12) -	Y risg y byddai newidiadau arfaethedig yn y Papur Gwyn Tai yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau.	A1	A3			2
--	------------------	---	----	----	--	---	---





### Canlyniad 3 – Mae Pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas

<b>SAH01</b>	CR029 -	Polisi Cynllunio – y risg y byddai'r Awdurdod yn methu mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol.	A1	D2			3
<b>SAH02</b>	CR046ai -	Cefnogi Pobl – y risg y byddai Gwasanaeth Cefnogi Pobl yn cael ei leihau.	A3	A3			
<b>SAH03</b>	CR049-	Deddfwriaeth Budd-dal Tai – y risg y byddai newidiadau cynlluniedig y Bil Diwygio Lles i gynnwys budd-dal tai o fewn Credyd Cynhwysol o Hydref 2013 ymlaen yn effeithio ar nifer y bobl ddigartref.	A1	A1			3



### Canlyniad 4 – Mae pobl yng Nghonwy'n iachach yn annibynnol

<b>HI01</b>	CR046b -	Ffioedd – y risg y byddai'n rhaid i ni dalu ffioedd uwch ar gyfer cartrefi preswyl.	A2	A2			
<b>HI02</b>	CR046g -	Gwasanaethau ar Sail Galw – y risg y byddai cynnydd parhaus o ran nifer y pecynnau gofal cymhleth.	A1	A1			
<b>HI03</b>	CR046i -	Partneriaeth lechyd Meddwl – y risg y byddai diffyg eglurder o ran trefn lywodraethu a chyfeiriad y Bartneriaeth lechyd Meddwl a diffyg gwybodaeth ar berfformiad yn arwain at broblemau gweithredol.	B1	B1			4
<b>HI04</b>	CR046j -	Camdriniaeth mewn Cartrefi Gofal – y risg y gall camdriniaeth ddigwydd o fewn cartrefi gofal.	C1	C1			3
<b>HI05</b>	CR046k_	Y risg y byddai adolygiad o'r Tîm Dyletswydd Brys yn effeithio ar lefel y gwasanaeth rydym yn gallu ei ddarparu.	A1	A1			

### Canlyniad 5 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Sir gydag economi ffyniannus

<b>TE01</b>	CR014 -	Y Sefyllfa Economaidd – y risg y byddai'r dirywiad economaidd yn cael effaith andwyol ar ddarparu gwasanaethau ac ar ein cymunedau.	A2	A2			3
<b>TE02</b>	CR041b -	Lleoliadau Allweddol – y risg na fyddai lleoliadau digwyddiadau allweddol yn gweithredu i'w llawn potensial.	C2	C2			3

### Canlyniad 6 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy

<b>SE01</b>	CR007 -	Risgiau Amgylcheddol - y risg na fyddem yn ymateb yn briodol i ffocws parhaus y Cynulliad ar hyrwyddo datblygiadau cynaliadwy.	B3	C4			3
-------------	---------	--	----	----	---	---	---

<b>SE02</b>	CR042a -	Amddiffynfeydd Llifogydd a Draenio Tir – y risg na fyddai cynlluniau digonol, cynlluniau wrth gefn na swyddogion ar gael i ymateb i lifogydd, erydu arfordirol a draenio tir; rŵan, yn y tymor canolig nac yn y tymor hir.	B1	C1		3
<b>SE03</b>	CR042b -	Methu cyrraedd targedau ailgylchu, compostio a gwastraff bwyd cenedlaethol.	B2	D2		3
<b>SE04</b>	CR047g -	Strategaeth TGCh – diffyg strategaeth TGCh / E-Lywodraeth drosfwaol.	B2	C2		3
<b>SE05</b>	CR048 -	Ymrwymiad Lleihau Carbon - a) y risg na fyddem yn cydymffurfio â'r ymrwymiad, b) y risg y byddai'r Awdurdod yn methu cyrraedd y targedau lleihau carbon o 3% sydd wedi eu pennu gan Lywodraeth Cymru.	A3	C3		2



**Canlyniad 7 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu**

<b>HCW01</b>	CR041a -	Llyfrgelloedd – y risg na fydd y gwasanaeth llyfrgell presennol yn gynaliadwy o fewn y dyraniad cyllideb presennol.	A2	C3		3
<b>HCW02</b>	CR041c -	Y Pier – y risg na fydd yr Awdurdod Lleol yn derbyn y grantiau sydd eu hangen i atgyweirio'r pier.	B1	B1		3

**Canlyniad 8 – Mae Pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais**

<b>IIL01</b>	CR018 -	Llywodraethu Gwybodaeth – y risg na fydd ymagwedd gorfforaethol tuag at reoli gwybodaeth.	B2	C4		3
<b>IIL02</b>	CR023 -	Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – y risg bod yr Awdurdod yn gwahaniaethu (boed ydynt yn ymwybodol o hynny neu beidio)	B2	C3		3



<b>IIL03</b>	CR047c -	E-Lywodraeth - y risg na fyddwn yn gwireddu'r potensial llawn o sicrhau gwelliannau i wasanaethau drwy ddefnyddio technoleg a systemau gwybodaeth.	B3	C4			3
<b>IIL04</b>	CR047f -	TG a Diogelwch Gwybodaeth - y risg na fyddai'r Awdurdod yn ymgymryd ag asesiad trefnus o risgiau Diogelwch TG sy'n penderfynu ar gamau gweithredu priodol a blaenoriaethau rheoli risgiau diogelwch TG.	B3	D3			3

#### 4.0 Cytundeb Canlyniad

Roedd y Cytundeb Canlyniad yn gymwys i dderbyn grant 100% am y flwyddyn ariannol 2011/12. Byddwn yn cyflwyno canlyniadau 2012/13 ym mis Medi 2013. Caiff gweithredu'r cytundeb ei fonitro pob chwarter gan y Grŵp Gweithredol ac mae'r adroddiad diwedd blwyddyn ar gyfer 2012/13 yn nodi y byddem yn hyderus o gael canlyniad llwyddiannus erbyn diwedd y flwyddyn o ran 9 o'r 10 Canlyniad. Rydym yn dal yn aros am ddata academaidd ar gyfer y canlyniad olaf. Rydym wedi derbyn canllaw drafft newydd gan Lywodraeth Cymru o ran Cytundeb Canlyniadau 2013/14 a thu hwnt. Rydym yn aros am y fersiwn terfynol ond rydym eisoes wedi dechrau paratoi. Bydd gan y Cytundeb Canlyniad newydd gyswllt cryfach â Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a bydd adroddiadau yn cael eu darparu gan reoleiddwyr allanol. Bydd hefyd yn canolbwyntio ar ganlyniadau perfformiad y Cyngor ar gyfer Dangosyddion Strategol Cenedlaethol. Bydd adroddiad manylach yn cael ei gyflwyno pan fydd y canllaw terfynol wedi ei gyhoeddi. Mae'r tabl isod yn crynhoi hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn 2012/13. Bydd adroddiad manylach yn cael ei gyflwyno i'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ac i'r Cabinet.

Canlyniad		Hunanasesiad
C1	Bod yr Iaith Gymraeg yn ffynnu	Aros am ddata
C5	Cymunedau iachach, cynaliadwy	Llwyddiannus
RC2	Bod ag ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu	Llwyddiannus
RC6	Gwell cyfleoedd dysgu a sgiliau	Llwyddiannus
RC11	Gwella ansawdd a mwynhad yr amgylchedd naturiol	Llwyddiannus
C4	Cefnogi'r busnesau yn yr economi leol i ffynnu	Llwyddiannus
RC1	Darperir cymorth fel bod pobl yn gallu byw bywydau annibynnol	Llwyddiannus
RC2b	Llai o ddigartrefedd	Llwyddiannus
RC7	Effeithlonrwydd gwastraff ac adnoddau naturiol	Llwyddiannus
SU3	Caffael mwy effeithlon ac effeithiol	Llwyddiannus

## 5.0 Dangosyddion Perfformiad – Adroddiad Eithriad

Cyflwynir Dangosyddion Perfformiad Strategol Cenedlaethol a Dangosyddion Craidd i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. Cânt eu monitro'n gorfforaethol gan y Tîm Gwella Datblygu Corfforaethol. Mae'r crynodeb isod yn darparu adroddiad eithriad sy'n dangos y Dangosyddion Perfformiad sydd:

- wedi eu gwella'n sylweddol
- angen cefnogaeth a chanolbwyntio pellach i gyrraedd targedau.

Dylid nodi bod nifer sylweddol o Ddangosyddion Perfformiad sy'n perfformio'n gyson dda heb eu dangos. Mae'r Dangosyddion Perfformiad wedi eu cyhoeddi ar y fewnwyd - <http://intranet/section.asp?cat=3044&Language=2>.

Cyflwynwyd fframwaith mesur perfformiad newydd ar gyfer 2011-12 a thu hwnt, wedi ei arwain gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Uned Ddata Cymru.

Mae 3 math gwahanol o fesurau perfformiad:

- **Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (NSIs)**- dangosyddion statudol a anfonir i Lywodraeth Cymru wedi alinio a'u hamcanion strategol
- **Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs)** - dangosyddion statudol a anfonir i Uned Ddata Cymru i fesur deilliannau allweddol
- **Data Gwella Gwasanaeth (SIDs)** - dangosyddion gwirfoddol a anfonir i Uned Ddata Cymru ar gyfer meincnodi. Ni fydd y rhain bellach yn cael eu cyhoeddi.

Mae adroddiad cenedlaethol - **Perfformiad Gwasanaeth Awdurdod Lleol (2011-12)** wedi cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, yn rhoi trosolwg o berfformiad ar draws Cymru. Gellir ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru. Nodir y ddolen gyswllt isod.

<http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/publicationevents/publications/lasperf1112/?lang=CY>.

Gellir derbyn mwy o wybodaeth ar berfformiad gan y Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol.

**Allwedd:**

NIS = Dangosydd Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru

PAM = Mesur Atebolwydd Cyhoeddus CLILC

SID = Data Gwella Gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer meincnodi

OA = Mesur sy'n rhan o Gytundeb Canlyniad Conwy gyda Llywodraeth Cymru

Heb gyflawni'r Amcan	Coch
Heb gyflawni'r amcan ond gyda goddefiant derbyniol.	Oren
Wedi cyflawni'r Amcan	Gwyrdd

**Perfformwyr Gwael - Dangosyddion Strategol Cenedlaethol**

Cyfeirnod DP:	Blwyd dyn 11/12	Targed 12/13	Blwyddyn 12/13	Perfformiad DP	Sylwadau
PSR/004: Y ganran o anheddau sector preifat o fu'n wag am hirach na 6 mis ar 1 Ebrill sydd wedi eu dychwelyd i ddefnydd preswyl yn ystod y flwyddyn drwy weithredu uniongyrchol gan yr Awdurdod Lleol	50	50	39	Coch	Mae canlyniad y perfformiad yn 2012/2013 yn is na'r hyn a gofnodwyd ar gyfer 2011/2012. Nid yw hyn yn annisgwyl, oherwydd y treulwyd amser ar gynllun 'Troi Tai'n Gartrefi' a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod cofnodi.
LCL001: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn, fesul 1,000 o boblogaeth	5,803	5,700	5,173	Coch	Mae ein manau gwasanaeth mwyaf yn ogystal â'r Llyfrgell Deithiol wedi profi gostyngiad bach yn nifer yr ymweliadau. Rydym yn adolygu ein horiau agor i ateb galw cwsmeriaid yn well, ac i gynyddu gweithgarwch allgymorth a chynyddu faint o ymgysylltu a wnawn â chymunedau.  I ymwelwyr rhithwir, mae newidiadau i wefan CBSC er mwyn bodloni Cyfarwydddeb Cwci yr UE ddiwedd mis Mai 2012 wedi cael effaith ddramatig ar yr ystadegau gan arwain at ostyngiad o hyd at 75%. Mae tîm y we bellach wedi newid eu polisi a dylai olygu y bydd y ffigurau'n cynyddu eto. Mae ymweliadau rhithwir yn cyfrif am 13% o'r cyfanswm.
LCS002: Nifer yr ymweliad â chanolfannau chwaraeon a hamdden yn yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, fesul 1,000 o boblogaeth lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol	9,617	9,620	7,523	Coch	Gellir priodoli'r gostyngiad i'r ffaith fod pecyn meddalwedd newydd wedi cael ei gyflwyno sydd wedi cynhyrchu ffigwr mwy cywir nag a gafwyd yn y blynyddoedd blaenorol. Hefyd, rydym wedi cael gwared â defnydd cwricwlwm yr ysgol o'r cyfleusterau yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, a oedd wedi'u cynnwys yn flaenorol yn y ffigwr hwn.

EDU017: Canran disgyblion Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n derbyn graddau A* i C ym mhynciau craidd TGAU (Saesneg/Cymraeg, a Mathemateg) <b>(Hefyd yn y Cynllun Corfforaethol)</b>	49.8%	53.4%	<b>49.3%</b>	<b>Coch</b>	Yn 2012, bu i ganran y disgyblion a gyflawnodd y Trothwy Lefel 2 ostwng ychydig o 0.5 pwynt canran o gymharu â chanlyniad y flwyddyn flaenorol gan fethu'r targed. Ar gyfer 2013 cafodd targed o 56.1% ei osod gan fod y garfan yn gryfach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae ymyrraeth a chefnogaeth wedi cael eu darparu i'r garfan gryfach honno ac i'r ysgolion i fynd i'r afael â gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu.
SCC/033d: Canran y bobl ifanc fu ar un adeg yn derbyn gofal y mae'r Awdurdod yn parhau i fod mewn cyswllt â nhw yn 19 oed	90.9%	90.0%	<b>82.4%</b>		Roedd yr Awdurdod mewn cysylltiad â 14 allan o gyfanswm o 17 o'r rhai a oedd wedi gadael gofal ar eu pen-blwydd yn 19 oed, gan roi canlyniad o 82.4%. Câi pob un o'r 3 a oedd wedi gadael gofal ac a ystyrid fel rhai nad oeddem mewn cysylltiad â hwy, wedi dychwelyd adref i fyw gyda rhieni neu deulu estynedig mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Er gwaethaf nifer o ymdrechion ac anfon llythyrau wedi eu cofnodi atynt bob tri mis— nid oedd y bobl ifanc hyn yn dymuno cael eu cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol mwyach ac yn hapus yn eu cartrefi teuluol eu hunain.

### Perfformwyr Gwael - Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus

Cyfeirnod DP:	Blwyd dyn 11/12	Targed 12/13	Blwyddyn 12/13	Perfformiad DP	Sylwadau
SCC/025: Canran yr ymweliadau statudol a wnaed â phlant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau	83.9%	90.0%	<b>76.8%</b>	<b>Coch</b>	Mae yna nifer o ffactorau sydd wedi effeithio ar y perfformiad eleni: mewn rhai amgylchiadau rydym oddi allan i'r amserlen ofynnol o ychydig ddyddiau'n unig; fodd bynnag, mewn amgylchiadau eraill, ymddengys i ryw faint o ddrysych ddigwydd o ran achosion o ddigartrefedd ymysg pobl ifanc 16/17 mlwydd oed, y dylid bod wedi eu trin o dan Adran 20 (Deddf Plant 1989), a'u trin fel rhai sy'n 'Derbyn Gofal' gan yr Awdurdod Lleol. Maes arall o arfer y mae angen mynd i'r afael ag ef yw cofnodi Ymweliadau Statudol mewn modd amserol. Mae'n ymddangos bod yr ymweliadau wedi digwydd mewn gwirionedd, ond nad ydynt wedi cael eu cofnodi ar system PARIS.  <b>Mae'r materion hyn wedi eu hamlygu i'r Pennaeth Gwasanaeth a'r Rheolwyr Gweithredol perthnasol ac mae cynllun gweithredu yn cael ei ffurfioli.</b>

### Perfformwyr Gwael – Mesurau Cynllun Corfforaethol

Cyfeirnod DP:	Blwyd dyn 11/12	Targed 12/13	12/13 Blwyddyn 12/13	Perfformiad DP	Sylwadau
M1.2b: Canran y bobl ddiamddiffyn a gafodd ganlyniad cadarnhaol	100%	75%	65%	Coch	Mae'r canran hwn yn is na'r disgwyl oherwydd: newidiadau yn sut y câi deilliannau'r arian grant eu diffinio, nifer yr unigolion yr ydym wedi bod yn gweithio gyda sydd wedi cael eu symud gan yr Adran Gwaith a Phensiynau at Raglen Waith y llywodraeth a nifer uwch na'r disgwyl o unigolion sydd am ryw reswm neu'i gilydd wedi gadael y rhaglen yn gynnar.
M1.5: Canran disgyblion Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n derbyn graddau A* i C ym mhynciau craidd TGAU (Saesneg/Cymraeg, a Mathemateg)	49.8%	53.4%	49.3%	Coch	Yn 2012, bu i ganran y disgyblion a gyflawnodd y Trothwy Lefel 2 ostwng ychydig o 0.5 pwynt canran o gymharu â chanlyniad y flwyddyn flaenorol gan fethu'r targed. Ar gyfer 2013 cafodd targed o 56.1% ei osod gan fod y garfan yn gryfach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae ymyrraeth a chefnogaeth wedi cael eu darparu i'r garfan gryfach honno ac i'r ysgolion i fynd i'r afael â gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu.
M3.6: Nifer yr anheddau sector preifat a fu'n wag am fwy na 6 mis ac sy'n cael eu defnyddio unwaith eto	50	50	39	Coch	Mae canlyniad y perfformiad yn 2012/2013 yn is na'r hyn a gofnodwyd ar gyfer 2011/2012. Mae hyn oherwydd i swyddogion dreulio amser ar gynllun benthyciadau 'Troi Tai'n Gartrefi' a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod cofnodi.

M6.5: Canran y gostyngiad mewn allyriadau carbon gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	7.09%	10%	<b>2.98%</b>	<b>Coch</b>	<p>Y nod yw lleihau allyriadau carbon deuocsid gan 25% rhwng 2010/11 a 2015/16. Yn ystod y flwyddyn gyntaf gwelwyd gaeaf mwyn iawn a gostyngiad o 7% mewn allyriadau, ond golygodd tywydd oerach y gaeaf diwethaf i ni fethu cyrraedd y targed. Mae nifer o brosiectau o fewn y Cynllun Rheoli Carbon nas cychwynwyd ar amser, sy'n golygu na wireddwyd y targedau. Mae timau bellach wedi cael eu neilltuo gogyfer â'r prosiectau hyn a byddant ar waith yn fuan. Fodd bynnag, mae swyddfeydd wedi gweld gostyngiad o 15% yn y defnydd a wnânt o gymharu â'r flwyddyn a ddefnyddir fel gwaelodlin. Mae'r prosiect uwchraddio goleuadau wedi bod yn ffactor sydd wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn.</p> <p>Mae defnydd Goleuadau Stryd wedi cynyddu rhyw fymryn o gymharu â'r flwyddyn a ddefnyddir fel gwaelodlin. Mae hyn o ganlyniad i archwiliad, a nododd gynnydd yn watedd y lampau, ac o ganlyniad, gynnydd yn y defnydd o ynni.</p> <p>Sylwer: Mae'r ffigwr diwedd blwyddyn ar gyfer 11/12 wedi ei newid gan fod y data a ddefnyddir yn seiliedig bellach ar y Cynllun Rheoli Carbon yn hytrach nag ar ddata'r Ymrwymiad i Leihau Carbon, felly mae'r data hwn bellach yn cynnwys, Adeiladau, Goleuadau Stryd, Fflyd (cerbydau masnachol), a Milltiroedd Busnes yn hytrach nag adeiladau'n unig.</p>
M7.2: Nifer y digwyddiadau i hyrwyddo Diwylliant Cymru	36	39	<b>19</b>	<b>Coch</b>	<p>Derbynnir bod y perfformiad presennol yn llawer is na'r targed ac mae angen gwella. Mae arian grant wedi cael ei neilltuo ar gyfer 13/14 a 14/15 i wella perfformiad a byddwn yn cysylltu â'n partneriaid i'n helpu i gyflawni ar y DP hwn.</p>
M8.3b: Nifer y cwynion a dderbyniwyd	591	689	<b>538</b>	<b>Coch</b>	<p>Mae'r perfformiad presennol yn llawer is na'r targed disgwylidig. O ystyried y perfformiad presennol, teimlir nad yw'r targed a gyhoeddwyd ar gyfer 2013/14 yn gyraeddadwy bellach. Awgrymir targed newydd i weld cynnydd o 5% ar y perfformiad presennol yn 2013/14 a chynnydd pellach o 5% yn 2014/15. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod gwasanaethau'n cofnodi canmoliaeth sy'n cael ei derbyn.</p>

M8.5: Canran defnyddwyr ein gwefan sy'n fodlon â'r wefan	70%	70%	<b>64.6%</b>	<b>Coch</b>	<p>Rydym wedi cyflwyno dull newydd o gasglu gwybodaeth sydd wedi arwain at gynnydd yn y nifer sy'n ymateb i'r arolwg bodlonrwydd, ond gostyngiad mewn perfformiad. Fodd bynnag oherwydd y dull newydd nid oes modd cymharu'r ffigwr newydd â'r blynyddoedd a fu. Roedd canlyniad y DP yn is yng nghanol y flwyddyn, ond bu iddo wella yn yr ail hanner wrth i'r gwasanaeth barhau i ymateb i adborth cwsmeriaid.</p> <p>Mae'r gwasanaeth wedi nodi mai diffyg gwasanaeth archebu cywir ar-lein ar gyfer y gwasanaethau hamdden sydd i gyfrif am nifer y defnyddwyr anfodlon ac mae prosiect wedi cychwyn i fynd i'r afael â'r pwnc hwn.</p>
--	-----	-----	--------------	-------------	---

### Perfformwyr Gwael - Perfformwyr Gwael Eraill

Cyfeirnod DP:	Blwyd dyn 11/12	Targed 12/13	12/13 Diwedd 12/13	Perfformiad DP	Sylwadau
HHA 002: Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith rhwng cyflwyno fel digartref a chyflawni dyletswydd am aelwydydd y canfyddir i fod yn statudol ddigartref	202 diwrnod	125 diwrnod	<b>265 diwrnod</b>	<b>Coch</b>	Mae lefelau uwch o gyflawni dyletswydd (+19%) wedi golygu mwy o amser mewn llety dros dro. Mae'r tîm wedi gweithio'n galed i gynyddu nifer yr achosion lle cyflawnir dyletswydd.
PPN008ii: Canran y busnesau newydd a nodwyd a oedd yn destun ymweliad asesu risg neu wedi dychwelyd holiadur hunanasesu yn ystod y flwyddyn ar gyfer hylendid bwyd	89.4%	90.0%	<b>77.3%</b>	<b>Coch</b>	Mae'r gostyngiad mewn perfformiad yn ganlyniad i ddiffyg canolbwyntio ar y dangosydd hwn, mae nifer y busnesau newydd hefyd yn is. Dywedwyd yng nghyfarfod pennu targedau 2013-14 bod y DP hwn yn bwysig i Gonwy ac nad yw perfformiad gwael yn dderbyniol. Mae achos yn erbyn y gwasanaeth i roi mesurau yn eu lle i wella perfformiad.
PPN008iii: Canran y busnesau newydd a nodwyd a oedd yn destun ymweliad asesu risg neu wedi dychwelyd holiadur hunanasesu yn ystod y flwyddyn ar gyfer iechyd anifeiliaid	66.7%	90.0%	<b>71.4%</b>	<b>Coch</b>	(gweler uchod)
BCT004: Canran ceisiadau 'cynllun llawn' rheoli adeiladu wedi eu gwirio o fewn 15 diwrnod gwaith yn ystod y flwyddyn	85.4%	90.0%	<b>76.6%</b>	<b>Coch</b>	Mae dirywiad yn lefel y perfformiad yn erbyn y Mesur Perfformiad hwn. Yn ystod y flwyddyn roedd y staff yn ymwneud llawer â chyflwyno EDRM i'r gwasanaeth. Mae'n bosib bod hyn wedi lleihau'r amser a oedd ganddynt i ddelio gydag achosion.



### Perfformiad wedi gwella'n sylweddol – Dangosyddion Strategol Cenedlaethol

Cyfeirnod DP:	Blwyddyn 11/12	Targed 12/13	Blwyddyn 12/13	Perfformiad DP
PSR002: Nifer cyfartalog y diwrnodiau calendr a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl (Hefyd PAM)	180 diwrnod	200 diwrnod	153 diwrnod	Gwyrdd
SCC/037: Sgorau cymwysterau allanol plant dan ofal NSI	151	130	258	Gwyrdd

### Perfformiad wedi gwella'n sylweddol – Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus

Cyfeirnod DP:	Blwyddyn 11/12	Targed 12/13	Blwyddyn 12/13	Perfformiad DP
PSR002: Nifer cyfartalog y diwrnodiau calendr a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl (Hefyd NSI)	180 diwrnod	200 diwrnod	153 diwrnod	Gwyrdd
SCC/001a): Lleoliadau cyntaf a ddechreuwyd gyda chynllun gofal yn ei le	68.6%	80%	84.8%	Gwyrdd

### Perfformiad wedi gwella'n sylweddol - Mesurau Cytundeb Canlyniadau

Cyfeirnod DP:	Blwyddyn 11/12	Targed 12/13	Blwyddyn 12/13	Perfformiad DP
OA-ENE-Q-M8 Canran y graffiti y cafwyd gwared arno o fewn 4 diwrnod gwaith o gael gwybod amdano	90.5%	89.0%	100.0%	Gwyrdd

### Perfformiad wedi gwella'n sylweddol - Mesurau Cynllun Corfforaethol

Cyfeirnod DP:	Blwyddyn 11/12	Targed 12/13	Blwyddyn 12/13	Perfformiad DP
M7.1a: Canran y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 4 neu uwch mewn Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 2	58.8%	63.0%	68.7%	Gwyrdd
M1.3: Nifer y lleoliadau gwaith a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	166	170	256	Gwyrdd

## **6.0 Gweithgarwch Rheoleiddio**

Gwelwch Adroddiad Blynyddol 2012-13

## **7.0 Gwella Conwy 2012**

Daeth proses hunanasesu'r Aelodau Etholedig a'r Staff, Gwella Conwy i ddisodli'r Chwe Thema Allweddol a phroses hunanasesu 9 Thema Allweddol. Mae'r adborth cyfranogi o'r broses wedi bod yn gadarnhaol iawn. Cyflwynwyd yr argymhellion i'r Cabinet ym mis Chwefror 2013. Er mwyn rhoi digon o amser i wasanaethau weithredu'r argymhellion, ni ofynnwyd am yr wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer Adolygiadau Perfformiad Gwasanaethau mis Mai. Bydd adroddiad cynnydd canol blwyddyn yn cael ei darparu ym mis Medi 2013 a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Hydref 2013.

## 8.0 Crynodeb o'r Datganiadau Sefyllfa Gwasanaeth

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r llwyddiannau allweddol a'r meysydd ar gyfer gwelliant ar gyfer gwasanaethau unigol. Gellir cael manylion pellach trwy ddarllen y **Datganiadau Sefyllfa Gwasanaeth** y gellir eu cael naill ai gan y gwasanaeth eu hun neu'r Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol.

### 8.1 TG

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mae'r Strategaeth TGCh wedi ei drafftio ac yn y broses o gael ei chyflwyno ar gyfer ymgynghori â'r Uwch Dîm Rheoli ym mis Medi. Bydd adborth yn sgil yr adolygiad TG diweddar yn cael ei gynnwys yn y Strategaeth.</li> <li>2. Mae'r gwasanaeth bellach yn tracio capasiti yn defnyddio taenlen ac yn gwirio 'pwyntiau cyfyng'. Blaenoriaethir gwaith trwy gyfarfodydd y tîm rheoli.</li> <li>3. Mae'r gwasanaeth yn datblygu cynllun cyfathrebu ar gynnydd gwaith a bydd adroddiadau rheolaidd ar berfformiad a chynnydd yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgorau trosolwg a chraffu.</li> <li>4. Bydd y gwasanaeth yn ystyried datblygu clinigau galw heibio / sesiynau awgrymiadau / sesiynau TG yn ystod fforwm rheolwyr canol.</li> <li>5. Bydd y gwasanaeth yn ystyried dulliau i gynhyrchu incwm ac i wneud y gwasanaeth yn fwy hyfyw.</li> <li>6. Mae'r gwasanaeth yn paratoi ar gyfer uwchraddio Microsoft Office XP ac Outlook gan fod y drwydded bresennol wedi dod i ben yn 2012. Bydd rheoli a hyfforddiant newid yn cael ei gynnwys yn y prosiect hwn.</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>7. Mae'r gwasanaeth wedi derbyn gwobr TG SOCITM yn 2012.</li> <li>8. Mae'r gwasanaeth wedi derbyn adroddiad cadarnhaol gan Swyddfa Archwilio Cymru.</li> <li>9. Mae atodlen gadw'r gwasanaeth wedi ei hadolygu yn ogystal ag atodlen cadw e-byst.</li> <li>10. Mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at y strategaeth rheoli gwybodaeth ac wedi datblygu cofrestr asedau rheoli gwybodaeth.</li> <li>11. Mae gwaith wedi ei wneud i feincnodi ac adolygu perfformiad y ddesg gymorth TG.</li> <li>12. Mae pob Adolygiad Datblygiad Perfformiad yn annog aelodau staff i sicrhau eu bod yn derbyn y bargeinion gorau gan gyflenwyr.</li> <li>13. Mae'r gwasanaeth wedi ail-werthuso'r rheoliadau 'cwcis' o ran caniatâd ymhlyg, er mwyn mynd i'r afael â'r effaith yr oedd hyn yn ei gael ar ystadegau.</li> </ol>

### 8.2 Adnoddau Dynol Corfforaethol

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mae problemau capasiti o fewn y tîm o ganlyniad i'r newid o ran cydweithio a threfniadaethau. Bydd hyn yn gwaethygu os yw gwasanaethau'n tynnu'n ôl. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Gweithredol i weld a oes modd mynd i'r afael â hyn. Mae ar reolwyr atebol angen rheoli problemau fel y maent yn codi fel nad ydynt yn gwaethygu.</li> <li>2. Mae gwaith dilysu yn cael ei wneud i asesu ansawdd Adolygiadau Datblygiad Perfformiad. Bydd y gwaith o gyflwyno proses newydd ar gyfer Adolygu Datblygiad Perfformiad wedi ei wneud erbyn mis Awst.</li> <li>3. Mae gwaith yn cael ei wneud i wella'r broses o recriwtio cyfranogwyr ar gyfer cynllun Cwmni Prentis. Mae grŵp datblygu gweithlu'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol yn gweithio i chwalu mythau prentisiaethau</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>5. Mae'r gwasanaeth wedi derbyn adborth cadarnhaol yn dilyn yr arolwg cwsmer.</li> <li>6. Mae fforwm rheolwyr canol bellach wedi ei sefydlu.</li> <li>7. Mae canllawiau bellach yn eu lle ar gyfer prentisiaethau a phrofiad gwaith.</li> <li>8. Aeth iTrent yn fyw ym mis Mawrth 2013. Mae'r gwaith o gyflwyno'r ail gam, recriwtio a llunio ffurflenni teithio yn cael ei wneud ar hyn o bryd.</li> <li>9. Mae cynllun ceir gwyrdd staff bellach yn fyw.</li> <li>10. Mae Adnoddau Dynol a Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol wedi datblygu cwrs Hyfforddiant Rheoli Newid Conwy gan ei roi ar brawf ym mis Ebrill.</li> <li>11. Mae rhaglen lechyd a Diogelwch yn mynd rhagddi'n dda. Mae gwell data bellach ar gael. Mae 173</li> </ol>

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<p>modern.</p> <p>4. Bydd adroddiad ar gynnydd Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.</p>	<p>ffurflen wedi ei dychwelyd o'r 180 safle yn ymwneud â'r archwiliad lechyd a Diogelwch.</p> <p>12. Mae lechyd a Diogelwch yn y broses o ddefnyddio EDRM.</p> <p>13. Mae gan dîm lechyd a Diogelwch bellach ganolfan hyfforddi ac maent yn darparu hyfforddiant i Wynedd. Maent yn ystyried ffyrdd o gynhyrchu incwm drwy gynnig hyfforddiant i sefydliadau allanol.</p> <p>14. Mae grŵp ymgynghori lechyd a Diogelwch wedi ei sefydlu ar gyfer y prif safleoedd.</p>

### 8.3 Gwasanaethau'r Gyfraith a Llywodraethu

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<p>1. Mae cynllun gweithredu yn ei le i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r archwiliad mewnol o ran sicrwydd cyfyngedig y Gwasanaeth Cofrestru. Mae staff wedi gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r materion.</p> <p>2. Mae cyflwyno Safonau Cymraeg wedi ei oedi tan fis Tachwedd 2014.</p> <p>3. Mae cynllun gweithredu'r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn mynd rhagddo'n dda.</p> <p>4. Ar hyn o bryd maent yn adolygu'r posibilrwydd o weddarlledu cyfarfodydd pwyllgorau i wella hygyrchedd.</p> <p>5. Mae'r gwasanaeth yn adolygu'r diffyg lle storio a chyfrinachedd dogfennau cyfreithiol mewn swyddfeydd. Mae angen system rheoli achosion. Mae'r gwasanaeth yn gobeithio y bydd system Ynys Môn yn addas.</p>	<p>6. Maent yn parhau i gynhyrchu incwm drwy ymgymryd â gwaith cyfreithiol ar ran sefydliadau eraill. Maent bellach yn darparu gwasanaeth cyfreithiol i Ynys Môn a gwaith cyfieithu i Sir Ddinbych.</p> <p>7. Maent wedi llwyddo i gael gostyngiad yn rhent yr Uned Argraffu ac yn gweithio gyda Marchnata i farchnata'r Uned Argraffu. Yn adolygu'r defnydd corfforaethol o argraffwyr ac yn ystyried cyllideb argraffu canolog i sicrhau bod yr uned yn cael ei defnyddio a bod arbedion yn cael eu gwireddu.</p> <p>8. Yn cysylltu â gwestai lleol i weld a oes cyfleodd i'r Gwasanaeth Cofrestru ac yn gwella marchnata'r Gwasanaeth Cofrestru ar y wefan i gynyddu incwm.</p>

### 8.4 Argyfyngau Sifil

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<p>1. Mae ar y gwasanaeth angen adolygu ei ddull o gynnal Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb.</p> <p>2. Mae Achos Busnes argyfyngau sifil ar y cyd wedi ei gymeradwyo, bydd y gwasanaeth yn gweithio gyda thimau cyfagos i'w weithredu.</p> <p>3. Mae'r gwasanaeth yn cyflwyno achos busnes ar gyfer storfa graean canolog – sydd ar wahân i Briffyrdd, i gefnogi'r fframwaith rhew ac eira.</p> <p>4. Mae'r gwasanaeth yn monitro newidiadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn ofalus i sicrhau parhad o ran arbenigedd rhybuddion llifogydd.</p>	<p>5. Hyfforddiant Rheoli Argyfyngau yn ei le.</p> <p>6. Mae ymarfer meincnodi gyda fforwm cydnerth lleol wedi dangos bod y tîm yn gweithio'n dda ac yn darparu cyngor i Awdurdodau Lleol eraill.</p> <p>7. Mae cynllun llifogydd Morfa yn mynd rhagddo'n dda gyda Llywodraeth Cymru. Gobeithiwn y bydd wedi ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2013.</p>

### 8.5 Gwasanaethau Rheoleiddio

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol ar y Cyd wedi ei adolygu er mwyn gwneud gwelliannau.</li> <li>2. Mae angen trafod yr agwedd ar y cyd i fynd i'r afael â cherbydau dros bwysau gyda Phrifyrdd. Hefyd mae angen ystyried a yw'r buddsoddiad yn yr offer yn mynd i alluogi'r tîm i gynnig y gwasanaeth i siroedd eraill.</li> <li>3. Mae ailstrwythuro'r Gwasanaeth Cynllunio'n cael ei ystyried ar hyn o bryd.</li> <li>4. Bydd Aelodau yn derbyn gwybodaeth am y cynnydd gyda chynllun gweithredu'r Adroddiad E. Coli. Nid yw gwaith meysydd gwasanaeth eraill o ran caffael bwyd wedi ei wneud.</li> <li>5. Mae ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn faich ar y gwasanaeth. Mae angen ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â hyn, e.e. EDM neu gyhoeddi ar y we.</li> <li>6. Mae angen sicrhau bod cwynwyr yn derbyn adborth fel eu bod yn ymwybodol bod camau gweithredu wedi eu cymryd.</li> <li>7. Mae gwaith yn cael ei wneud i wella mesur perfformiad Tai Gwag.</li> <li>8. Mae angen cynyddu nifer yr Adolygiadau Datblygiad Perfformiad sy'n cael eu cwblhau.</li> <li>9. Yn gwella dilysiad Dangosyddion Perfformiad a monitro argymhellion ymchwiliadau sydd heb eu gwneud.</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>10. Mae llawer o waith wedi ei wneud i ymgysylltu â staff ac i ailstrwythuro'r gwasanaeth.</li> <li>11. Er i'r gwasanaeth dderbyn rhywfaint o gyhoeddusrwydd negyddol, mae'r cynlluniau ar gyfer rhoi dirwyon am adael ysbwriel a baw ci wedi eu rhoi ar waith. Prif fesurydd llwyddiant fydd gostyngiad yn nifer y troseddau mewn manau problemus. Bydd rhestr o'r manau problemus a'r swyddogion ardal yn cael ei chylchredeg i Aelodau Etholedig i sicrhau nad oes ardal wedi ei hepgor a bod pob Aelod Etholedig yn gwybod gyda phwy y dylen nhw gysylltu.</li> <li>12. Mae Safonau Masnach wedi ei ailosod yng Nghonwy ac mae mwy o eglurder ynghylch ei swyddogaeth. Mae'r tîm yn gweithio gydag awdurdodau eraill i ystyried cynllun gwaith i'r dyfodol rhanbarthol.</li> <li>13. Mae Rheoliadau Cynllunio ac Adeiladu bellach yn defnyddio EDRM ac mae gwelliannau cadarnhaol i'w gweld.</li> <li>14. Mae gwelliannau sylweddol i'w gweld yn y tîm digartrefedd. Mae'r tîm yn aros am fersiwn terfynol adroddiad archwilio a fydd o bosib yn amlygu eu gwaith fel safle disglair.</li> <li>15. Maent wedi mynychu diwrnod meithrin tîm a oedd yn rhad ac am ddim diolch i Brifysgol Lerpwl. Roedd yn brofiad cadarnhaol iawn.</li> </ol>

### 8.6 Archwilio Mewnol

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Hyfforddiant Llywodraethu Corfforaethol arfaethedig.</li> <li>2. Mae staff ar fin dechrau diploma CIPFA mewn llywodraethu.</li> <li>3. Maent yn cynnal archwiliad o drefniadau llywodraethu'r Partneriaethau Strategol y mae CBSC yn eu harwain.</li> <li>4. Cwblhawyd 82.5% o'r cynllun archwilio blynyddol yn erbyn y targed o 85%. Y prif reswm dros hyn oedd bod y staff wedi gorfod treulio amser yn adolygu Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol a Forces for Good.</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>5. Mae'r gwaith o gyflwyno contract newydd ar gyfer archebion sefydlog gyda Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn tynnu tua'r terfyn.</li> <li>6. Cynhaliwyd hyfforddiant cyflwyno ar gyfer y Pwyllgor Archwilio.</li> <li>7. Mae Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Archwilio bellach yn ei lle ac mae'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi mynychu seminar archwilio CIPFA dylanwadol.</li> <li>8. Cefnogaeth ymgynghorol ar drefniadau rheoli i Trent ac O Brynu Hyd Dalu.</li> <li>9. Cwblhau Datganiad Llywodraethu Blynyddol mewn Partneriaeth â'r Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol.</li> </ol>

### 8.7 Gwella a Datblygu Corfforaethol

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
---	--------------------

<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Yn ceisio cynnwys ffigyrau ynni ym mhob maes gwasanaeth er mwyn gwella perchnogaeth. Mae'r ffigyrau, ble bynnag y bo'n bosib, ar gyfer y rownd hon o Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth (SPRs) a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu.</li> <li>2. Gweithio gyda thîm y We i greu mesurau gwe defnyddiol ar gyfer pob gwasanaeth i hwyluso diweddarau tudalennau gwe. Wedi ei gwblhau'n rhannol – wedi gwneud y gorau gallem gyda'r dechnoleg sydd gennym. Fe ddylai'r System Reoli Ganolog newydd hwyluso'r gwaith o adolygu tudalennau wedi dyddio.</li> <li>3. Cynllunio i adolygu'n barhaus y broses adolygu perfformiad ar ôl pob rownd SPR er mwyn sicrhau y parheir i 'brynu i mewn'.</li> <li>4. Yn adolygu amlder adroddiadau mesur Perfformiad.</li> <li>5. Yn gweithredu Fframwaith Cytundeb Canlyniadau newydd Llywodraeth Cymru.</li> <li>6. Rhoi technegau adolygu penodol i Gonwy ar brawf i wella sicrwydd ansawdd prosiectau.</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>7. Gweithio gydag AD i ddatblygu Hyfforddiant Rheoli Newid Busnes – hyfforddiant wedi ei gynnal ym mis Ebrill.</li> <li>8. Strwythurau Rhaglen bellach yn eu lle ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol, Trawsnewid Busnes a Rhaglen Gwasanaeth Cwsmeriaid.</li> <li>9. Datblygu rhaglen profiad gwaith 'corfforaethol' ar gyfer gwasanaethau cefnogi.</li> <li>10. Adborth cadarnhaol wedi ei dderbyn gan Gwella Conwy 2012. Bydd adroddiad dilynol ar y cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Medi.</li> <li>11. Cynhyrchu incwm drwy ddarparu gwasanaeth arolwg i sefydliadau eraill.</li> </ol>
---	--

## 8.8 Cyllid

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mae angen ffurfioli hyfforddiant rheoli ariannol trwy'r hyfforddiant llywodraethu a'r cyflwyniad corfforaethol.</li> <li>2. Mae angen edrych ar y tudalennau gwe.</li> <li>3. Bydd staff yn cofrestru'n awtomatig ym mis Awst. Angen anfon llythyr at bob aelod staff nad ydynt yn rhan o gynllun pensiwn. O fis Hydref 2017 bydd pob aelod staff yn cofrestru'n awtomatig a bydd yn rhaid iddynt dynnu'n ôl – nid oes modd rhagweld beth fydd y goblygiadau ariannol ar hyn o bryd.</li> <li>4. Maent yn mynd i'r afael â chyflymder cyflogau iTrent fesul 'darn'.</li> <li>5. Maent yn aros am ganlyniad trafodaethau'r Cynllun Morgais Awdurdod Lleol i weld a fydd y cynllun yn parhau.</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>6. O Brynu Hyd Dalu yn mynd rhagddo'n dda. Nid yw Cam 1 (Bodlondeb) yn fyw.</li> <li>7. Mae llawlyfr rheoli ariannol wedi ei gylchredeg i bob aelod staff perthnasol.</li> <li>8. Wedi cynnal adolygiad o yswiriant ac wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd o £200,000.</li> <li>9. Yr Adain Gyflogau wedi ei hailstrwythuro.</li> <li>10. Mae Grwpiau Adolygu Cyllideb wedi cael eu sefydlu ar gyfer pob maes gwasanaeth.</li> <li>11. Fframwaith Ariannol Tymor Canolig yn ei lle.</li> <li>12. Cynllunio Olyniaeth yn ei le trwy ddirprwyo mwy o dasgau i gynyddu gwybodaeth.</li> </ol>

## 8.9 Contractau a Chaffael

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mae cynllun gwasanaeth yn mynd rhagddo'n dda.</li> <li>2. Mae Strategaeth Caffael a Chynllun Gweithredu wedi eu drafftio a byddent yn cael eu cymeradwyo ym mis Mawrth 2014.</li> <li>3. Yn datblygu fframwaith tendro a gwell llywodraethu. Ar hyn o bryd yn adolygu trefn lywodraethol Conwy i weld a ddylid gwneud yr adolygiad o fframweithiau yn gorfforaethol.</li> <li>4. Yn dod â chofrestr ynghyd o holl gontractau yng Nghonwy a bydd rhestr darparwyr cymeradwy'n cael ei llunio.</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>7. Mae fforwm rheoli contractau wedi ei sefydlu.</li> <li>8. Mae gwaith ar Ysgolion yr 21ain Ganrif yn mynd rhagddo'n dda.</li> <li>9. Mae adolygiad o Archebion Sefydlog Contractau yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.</li> <li>10. Yn meddwl am ffyrdd o gynhyrchu incwm e.e. codi tâl am waith allanol.</li> <li>11. Gweithio i gofnodi ac adrodd ar arbedion sydd wedi eu cyflawni.</li> </ol>

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<p>5. Adolygu'r dull caffael a gofynion y gwasanaeth – gwella'r drefn lywodraethu.</p> <p>6. Mae'r agwedd gydweithredol tuag at gaffael yn cael ei hadolygu ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.</p>	

### 8.10 Refeniw a Budd-daliadau

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<p>1. Angen adolygu'r mynediad at gyfrifiaduron llyfrgell a chyfrifiaduron cyhoeddus – gan mai ar y we yn unig y mae Credyd Cynhwysol a gan ein bod yn hyrwyddo gweithgarwch ar-lein (e-anfonebu treth y cyngor).</p> <p>2. Yn adolygu'r posibilrwydd o gyflwyno llyfrynnau gwybodaeth electronig ar dreth y cyngor er mwyn lleihau costau argraffu.</p> <p>3. Yn parhau i adolygu a monitro effaith y diwygiad lles ar drigolion Conwy.</p> <p>4. Yn parhau i weithio gyda phartneriaid a budd-ddeiliaid eraill a rhoi gwybod i bobl am newidiadau'r diwygiad lles - y brif broblem gyda'r dreth ystafell wely yw diffyg cartrefi gyda llai o ystafelloedd gwely.</p> <p>5. Yn adolygu'r systemau TG ar gyfer Swyddogion Hawliau Lles ac Asesiadau Ariannol – bydd modd i ni arbed mwy o arian os byddwn yn cyflawni hyn.</p>	<p>6. Bu i ni gwrdd â'r terfyn amser (sef 1 Ebrill) a chyflwyno'r cynllun gostyngiad treth y cyngor a'r dreth ystafell wely.</p> <p>7. Mae gan y Gronfa Cymorth Dewisol (a reolir gan Northgate ac a ddaeth yn lle'r Gronfa Gymdeithasol ar 1 Ebrill 2013) rif ffôn rhad ac am ddim.</p> <p>8. Canlyniadau cadarnhaol o ran meincnodi mân ddyledwyr - mae dyledion sy'n daladwy wedi lleihau ac mae nifer y dyledion sydd wedi eu dileu ar eu hisaf ers chwe blynedd.</p> <p>9. Mae mwy a mwy o bobl yn dewis derbyn eu bil treth y cyngor trwy e-bost. Mae cleientiaid a landlordiaid Budd-daliadau Tai yn mynd ar-lein i weld cyfrifon.</p> <p>10. Mae asesiad o effaith ar gydraddoldeb wedi ei gynnal ar gynllun gostyngiadau treth y cyngor ac ar daliadau tai dewisol.</p> <p>11. Mae cyfarfodydd misol yn cael eu cynnal gyda staff ynglŷn â'r diwygiad lles.</p> <p>12. Bu i'r tîm diwygiad lles adnabod £5,276,284 o enillion budd-daliadau i'w cleientiaid.</p>

**8.11 Priffyrdd ac Isadeiledd** (Cynllun gwasanaeth diwedd blwyddyn wedi ei gwblhau ond dim SPR wedi ei gynnal oherwydd y gwaith o ailstrwythuro'r AFfCh. Mae cynllun gwasanaeth yn cael ei ddatblygu gan y tîm rheoli newydd).

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
1.	2.

**8.12 Gwasanaeth Rheoli Eiddo ac Asedau** (Cynllun gwasanaeth diwedd blwyddyn wedi ei gwblhau ond dim SPR wedi ei gynnal oherwydd y gwaith o ailstrwythuro'r AFfCh. Mae cynllun gwasanaeth yn cael ei ddatblygu gan y tîm rheoli newydd).

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
1	2

**8.13 Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol** (Cynllun gwasanaeth diwedd blwyddyn wedi ei gwblhau ond dim SPR wedi ei gynnal oherwydd y gwaith o ailstrwythuro'r AFfCh. Mae cynllun gwasanaeth yn cael ei ddatblygu gan y tîm rheoli newydd).

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
1.	2.

#### 8.14 Gwasanaethau Datblygu Cymunedol

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mae ar y gwasanaeth angen gwahanu'r ganolfan hamdden oddi wrth ganolfan ddigwyddiadau Eirias.</li> <li>2. Yn adolygu a sefydlu cyllidebau sylfaenol ar gyfer Eirias.</li> <li>3. Yn ceisio datblygu system i ddarparu arlwyo masnachol. Angen gwella trefniadau bwyd a diod er mwyn gwneud elw.</li> <li>4. Bydd y gwasanaeth yn datblygu proforma achos busnes ar gyfer digwyddiadau arbennig i asesu'r gost a'r budd i'r economi leol.</li> <li>5. Bydd ffurflen boddhad cwsmer yn cael ei hanfon at bawb sydd wedi archebu Eirias er mwyn dysgu gwersi o adborth cwsmeriaid.</li> <li>6. Arfarniad Opsiynau ar gyfer y Neuadd Ddinesig wedi ei gwblhau. Mae materion wedi codi o ran lechyd a Diogelwch a DDA.</li> <li>7. Yn adolygu rheoli'r wybodaeth ar berfformiad yn brydlon.</li> <li>8. Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu Strategaeth Celfyddydau ar y cyd â Venue Cymru.</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>9. Mae Bwrdd Eirias wedi ei ddatblygu ac mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal â Venue Cymru. Yn marchnata i rannu gwybodaeth a chaffael.</li> <li>10. Ôl-drafodaethau'n gyda chleientiaid ar ôl digwyddiadau.</li> <li>11. System docynnau Eirias yn symud o RUC i Venue Cymru (ar wahân i gemau dan 20).</li> <li>12. Gweithio gyda Chanolfannau Croeso i farchnata Eirias.</li> <li>13. Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb wedi eu cynnal. Mae tîm Moderneiddio Llyfrgelloedd wedi diwygio'r strategaeth yn sgil yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb.</li> <li>14. Bydd y gwaith o sefydlu system archebu ar-lein ar gyfer gwasanaethau hamdden yn cael ei wneud cyn bo hir.</li> <li>15. Mae nifer yr absenoldebau oherwydd salwch wedi lleihau ac mae 80% o'r PDRs wedi eu cynnal.</li> <li>16. Mae Rhwydwaith Busnes Bae Colwyn yn gweithio'n dda ac wedi cynnal gŵyl 1940au lwyddiannus iawn. Mae digwyddiadau busnes eraill yn cynnwys sioe awyr, sioe môr ladron Conwy a'r Strafagansa.</li> <li>17. Mae rhaglen strategol sgiliau bellach yn ei lle.</li> </ol>

#### 8.15 Theatrau a'r Ganolfan Gynadledda

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Newid goleuadau maes parcio Venue Cymru am rai LED.</li> <li>2. Datblygu achos busnes i asesu budd paneli solar.</li> <li>3. Mae nifer yr archebion o ran cynadleddau wedi gostwng.</li> <li>4. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu llunio adroddiad i roi sicrwydd ynglŷn â'r strwythur prisio o'i gymharu â lleoliadau bwyd a diod lleol eraill.</li> <li>5. Datblygu cynnig digwyddiadau Conwy - cyfres o safonau i osgoi cystadleuaeth fewnol.</li> <li>6. Bydd y gwasanaeth yn ymchwilio i ddewisiadau o ran gwerthu eu harbenigedd.</li> <li>7. Mae nifer y cwsmeriaid sy'n ymateb i'r arolygon cwsmer yn isel - mae'r gwasanaeth yn edrych ar ffyrdd o gynyddu nifer yr ymatebion e.e. gofyn am farn aelodau staff a gwneud gwell defnydd o'r data sydd gennym ni mewn e-byst. Mae ar y gwasanaeth hefyd angen edrych ar adborth sefydliadau sydd heb archebu Venue Cymru.</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>11. Mae nifer yr absenoldebau oherwydd salwch wedi gostwng.</li> <li>12. PDRs grŵp yn cael eu cynnal ar gyfer Cymorthyddion Bwyd a Diod.</li> <li>13. Mae mentrau arbed ynni yn dal i gael effaith cadarnhaol ar filiau a sgôr ynni.</li> <li>14. Mae Venue Cymru wedi cyrraedd rhestr fer gwobr cynaladwyedd.</li> <li>15. Mae gwerthiant tocynnau wedi cynyddu, yn arbennig archebion ar-lein. Fodd bynnag mae elw wedi gostwng.</li> <li>16. Lleoliadau yn cydweithio e.e. cefnogaeth dechnegol, cefnogaeth gyda thocynnau, staff blaen y tŷ a hyrwyddo.</li> <li>17. Mae arlwyo mewnlol yn dechrau cynhyrchu elw ac mae'r holl gynnyrch yn gynnyrch lleol (ac eithrio bwydydd sych).</li> <li>18. Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth ag Ensemble Cymru i gynyddu'r</li> </ol>



Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> <li>8. Mae angen mynd i'r afael â materion cynllunio sydd wedi eu hamlygu drwy sgrinio ffilmiau.</li> <li>9. Bydd y gwasanaeth yn darparu adroddiadau cynnydd rheolaidd i Aelodau Etholedig.</li> <li>10. Mae ar y gwasanaeth angen sicrhau ei fod yn gwneud y gorau o bob cyfle yn sgil llongau teithio sy'n cyrraedd Llandudno a rhoi gwybod i fusnesau pa gynadleddau sy'n cael eu cynnal.</li> </ol>	<p>cyllid sydd ar gael ar gyfer gweithdai cerdd mewn ysgolion.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>19. Cynhaliwyd prosiect Cymerwch Ran ym mis Ionawr a bu i dros 4500 gymryd rhan. Mae artistiaid lleol wedi cadarnhau bod hyn wedi cynyddu eu harchebion. Mae sesiynau stori ychwanegol Cymerwch Ran, gan gynnwys sesiynau Cymraeg, yn cael eu cynnal.</li> <li>20. Mae'r gwasanaeth yn gwneud y gorau o'r cyfryngau cymdeithasol ac yn anfon negeseuon yn rheolaidd.</li> <li>21. Mae sesiynau ffilmiau Theatr Colwyn ym mynd rhagddynt yn dda.</li> </ol>

### 8.16 Marchnata a Chyfathrebu

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mae'r gwasanaeth wrthi'n cwblhau Cynllun Gwasanaeth.</li> <li>2. Mae llwyth gwaith y tîm yn broblem fawr ac mae staff wedi cronni TOIL. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Gweithredol i drafod hyn ymhellach.</li> <li>3. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda Venue Cymru i ystyried penodi prentis ar y cyd.</li> <li>4. Mae strwythur prisio cliriach ar gyfer codi tâl am wasanaethau CBSC yn cael ei ddatblygu.</li> <li>5. Bydd Protocol Aelodau yn cael ei ddiwygio yn y man – mae hyn wedi ei ohirio oherwydd y llwyth gwaith.</li> <li>6. Mae ymgysylltu â thrigolion ynglŷn â digwyddiadau ar y gweill wedi ei wella yn dilyn adroddiad gan yr ombwdsmon.</li> <li>7. Mae disgwyl i'r Strategaeth Digwyddiadau gael ei chwblhau ym mis Tachwedd 2013.</li> <li>8. Mae'r Strategaeth Cyfathrebu wedi ei drafftio ac yn cael ei chyflwyno er cymeradwyaeth ar hyn o bryd.</li> <li>9. Mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn adolygu'r angen am fwy o le storio gyda'r Rheolwr Asedau.</li> <li>10. Cyfrif # Trydar yn cael ei greu ar gyfer pob digwyddiad newydd.</li> <li>11. Yn cynyddu adborth cwsmeriaid trwy gystadlaethau.</li> <li>12.</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>13. Mae'r gwasanaeth wedi cynnal cyrsiau hyfforddi Rheoli Trafnidiaeth a Rheoli Iechyd a Diogelwch ar gyfer trefnwyr digwyddiadau.</li> <li>14. Mae'r gwasanaeth wedi cynnal cynhadledd Cymdeithas Digwyddiadau Awyr Agored Cenedlaethol yn Eirias.</li> <li>15. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda sefydliadau gwirfoddol ac addysgol a chyda Venue Cymru ac Eirias i greu rhestr o wirfoddolwyr.</li> <li>16. Maent yn gweithio'n agos gyda Grŵp Swyddogion Digwyddiadau Gogledd Cymru i lunio Pecyn Gwybodaeth ar gyfer Trefnwyr Digwyddiadau ar gyfer gogledd Cymru gyfan.</li> <li>17. Maent yn gweithio gyda Venue Cymru a'r Gwasanaeth Datblygu Cymunedol i gynhyrchu deunyddiau sy'n hyrwyddo ac yn marchnata asedau'r Cyngor ac asedau "Awyr Agored Conwy". Maent yn edrych am £3000 i ariannu hyn.</li> <li>18. Mae is-grŵp wedi edrych ar ffyrdd y gallem dderbyn nawdd.</li> <li>19. Mae arolwg effaith economaidd digwyddiadau bellach yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd ac mae ôl-drafodaethau yn cael eu cynnal ar ôl bob digwyddiad er mwyn eu hadolygu.</li> </ol>

### 8.17 Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, Plant a Theuluoedd

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mae'r Bartneriaeth Iechyd Meddwl yn dod i ben yn sgil newidiadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Bydd Memorandwm o Ddealltwriaeth yn cael ei roi yn ei le. Mae gwybodaeth ar berfformiad y gwasanaeth wedi ei chyflwyno i'r bwrdd rhanbarthol a bydd yn cael ei chyflwyno i'r cyngor yn y dyfodol.</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>13. Mae'r gwasanaeth wedi cwblhau ymarfer proffilio gweithlu eang er mwyn cynllunio olyniaeth a phroffilio'r ystod eang o gontractau.</li> <li>14. Mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i sicrhau grant i gefnogi'r gofynion gofâl newydd ar gyfer pobl ifanc 16/17 oed sy'n ddigartref. Mae'r niferoedd yn</li> </ol>

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> <li>2. Mae'r galw ariannol yn dal i fod a bydd yn parhau i'r dyfodol yn sgil cynnydd mewn gwasanaethau gofal pobl ag anableddau a phobl hŷn.</li> <li>3. Mae asesiad gofalwyr yn seiliedig ar ganlyniadau yn cael ei ddatblygu yn lle'r mesurau presennol o fewn y Cynllun Corfforaethol.</li> <li>4. Bydd adroddiad ar ofal gwell yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ym mis Awst.</li> <li>5. Mae prosiect Storfa Offer ar y Cyd yn aros am gymeradwyaeth i lofnodi Cytundeb Adran 33 oherwydd ymholiadau o ran cyfrifeg, ond rydym yn gobeithio y bydd y mater wedi ei ddatrys cyn bo hir. Bydd adroddiad gyda'r wybodaeth ddiweddaraf a'r gwersi a ddysgwyd yn sgil y prosiect yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu.</li> <li>6. Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu yn gweithio gyda Sefydliad Gofal Cyhoeddus i adolygu'r gwasanaeth ac i wneud argymhellion. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n dda ond mae angen adolygu'r drefn lywodraethol gan fod gormod o ddibyniaeth ar ewyllys da.</li> <li>7. Mae adroddiad yn cael ei ddatblygu i ystyried gwelliannau o ran gweithio'n ystwyth – y nod o gael gwasanaeth electronig a mynediad cyflymach at wybodaeth.</li> <li>8. Mae angen mwy o waith i integreiddio lechyd a Gofal Cymdeithasol yn Ysgol y Gogarth.</li> <li>9. Mae gweithgor pwynt cyswllt unigol wedi ei sefydlu i edrych ar rannu gwybodaeth gyda'r Gwasanaeth lechyd.</li> <li>10. Mae'n rhaid i'r gwasanaeth atal ac ymyrryd yn fuan os yw am aros yn gynaliadwy.</li> <li>11. Mae'r gwasanaeth yn adolygu ei bolisi codi tâl.</li> <li>12. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal i adolygu'r posibilrwydd o ofalu am bobl ifanc 16/17 oed sydd yn y ddalfa. Mae protocol wedi ei ddatblygu i atal yr angen am gadw pobl ifanc yn y ddalfa.</li> </ol>	<p>cynyddu ac mae'r pwyslais ar adfer fel bod modd iddynt ddychwelyd adref os yn ymarferol.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>15. Mae fframwaith gofalwyr wedi ei ddatblygu ac mae prosiect ar gyfer gofalwyr ifanc wedi ei sefydlu ar y cyd â NCH.</li> <li>16. Mae Bwrdd Strategol Lleol wedi ei sefydlu gyda chydweithwyr o'r Gwasanaeth lechyd. Mae hwn yn gyfarfod sirol ac wedi gwella cyfathrebu a pherthnasau gyda'r Gwasanaeth lechyd.</li> <li>17. Mae'r Strategaeth lechyd a Lles yn gydamseredig â'r Cynllun lechyd ac yn gweithio'n dda.</li> <li>18. Mae Gofal Canolradd wedi ei sefydlu i osgoi ailadrodd gwasanaethau ac mae gwasanaethau Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithio i Gytundeb Lefel Gwasanaeth i amddiffyn darpariaethau.</li> <li>19. Mae Trawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynd rhagddo'n dda. Mae buddsoddiad mawr wedi ei wneud o ran ymrwymiad staff ac mae rheolwyr gweithredol bellach yn gyfrifol am berfformiad. Mae fframwaith sicrwydd ansawdd yn ei le i gefnogi hyn.</li> <li>20. Mae asesiadau ansawdd bywyd wedi eu paratoi ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol a Llys Elian.</li> <li>21. Bu i'r gwasanaeth ddiweddu'r flwyddyn ariannol o fewn y gyllideb.</li> </ol>

### 8.18 Addysg

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mae adroddiad yn cael ei gyflwyno ym mis Gorffennaf o ran Cam 2 moderneiddio addysg gynradd sy'n cyd-fynd â rhaglen a chyllid Llywodraeth Cymru. Bydd hyn o bosib yn cynnwys ysgol ac uno ysgolion cynradd.</li> <li>2. Mae recriwtio penaethiaid yn dal yn fater ac mae'n rhaid ei gydbwyso â'r rhaglen foderneiddio. Mae 15 pennaeth dros dro wedi eu penodi. Mae clwstwr o ysgolion ffederasiwn yn cael ei roi ar brawf yn Nyffryn Conwy. Y brif broblem yw nad oes gan benaethiaid gymhwyster NPQH ac nad oes digon o le ar</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>7. Cydweithio rhanbarthol – 'GwE' yn fyw ers 1 Ebrill.</li> <li>8. Mae cynnydd cadarnhaol wedi ei wneud i leihau cronfeydd wrth gefn. Mae'n rhaid i ysgolion gyfiawnhau eu cronfeydd wrth gefn ac mae terfyn amser bellach wedi ei bennu ar gyfer gwario'r arian (bydd yr arian yn cael ei ailddosbarthu i ysgolion eraill os nad yw'n cael ei wario).</li> <li>9. Mae hunanwerthusiad y gwasanaeth yn cyd-fynd â fframwaith Estyn ac mae rhaglen yn ei lle i gyflwyno elfennau o'r fframwaith i Aelodaeth Etholedig drwy gydol y flwyddyn.</li> </ol>

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<p>gael ar gyrsiau.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>3. Maent yn cynnal adolygiad o leoedd gwag ysgolion. Maent yn ystyried defnyddiau eraill ar gyfer ysgolion e.e. cwnsela, swyddfeydd, storfeydd ac ati (o fewn cyfyngiadau CRB ac lechyd a Diogelwch).</li> <li>4. Mae rheolwr Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus wedi ei benodi i adolygu Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.</li> <li>5. Disgwylir arolwg Estyn ym mis Medi 2014.</li> <li>6. Mae'r gwasanaeth yn monitro effaith y diwygiad lles ar deuluoedd ac effaith posib hyn ar gyrhaeddiad dysgwyr. Mae sesiynau amser siarad gyda seicolegwyr addysg ar gael i rieni.</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>10. Mae cynlluniau datblygu ar gyfer pob ysgol.</li> <li>11. Mae newidiadau i ADY yn golygu y gall ysgolion ddewis prynu'r gwasanaeth yn ôl – mae 99% o'r ysgolion wedi dewis gwneud hyn.</li> <li>12. Maent yn safoni'r holl systemau busnes fel bod modd rhedeg adroddiadau yn rhanbarthol.</li> <li>13. Mae cynllun gweithredu yn ei le ac mae llawer iawn o waith wedi ei wneud i gefnogi ysgolion i wella cyrhaeddiad dysgwyr. Mae pob dysgwr yn cael ei dracio ac mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar bedair ysgol sy'n tanberfformio. Mae hynny wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Bydd tystiolaeth o hyn ym mis Awst 2013 a 2014.</li> <li>14. Mae 'Grwpiau meithrin' wedi eu sefydlu i dargedu sgiliau cymdeithasol plant 3 oed ac i gynnal nosweithiau rhieni i egluro cynlluniau llythrennedd. Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu yn adnabod ac yn cefnogi teuluoedd diamddiffyn.</li> </ol>

### 8.19 Partneriaethau Strategol

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Yn ceisio gwella llif gwybodaeth partneriaethau allweddol ac adolygu capasiti i ddarparu mwy o gefnogaeth a chysylltiadau i arweinyddion Conwy ar y Bwrdd Gwasanaeth Lleol, Bwrdd Uchelgais a'r Bwrdd Arweinyddiaeth.</li> <li>2. Yn ceisio gwella gwaith craffu'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol trwy dderbyn cymorth gam Bwyllgor Craffu Cymunedau a chyfethol partneriaid i'r pwyllgor.</li> <li>3. Yn llunio adroddiad blynyddol ar Un Conwy ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol i adolygu'r camau gweithredu, dangosyddion a'r blaenoriaethau allweddol.</li> <li>4. Mae angen adolygu partneriaethau – mae arnom angen dangos tystiolaeth o resymoli 50% - bydd cynnig yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Gweithredol ar gyfer ystyriaeth bellach.</li> <li>5. Mae capasiti'r tîm partneriaethau yn fater sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd.</li> <li>6. Mae angen gwaith pellach i wella'r gronfa ddata ymgynghori.</li> <li>7. Yn gwella trefn lywodraethol partneriaeth y Cynllun Datblygu Gwledig e.e. llofnodi'r Memorandwm o Ddealltwriaeth.</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>8. Mae Rheolwr Partneriaethau Corfforaethol newydd wedi ei benodi.</li> <li>9. Mae uned Gwasanaeth Cwsmeriaid a Gwybodaeth Corfforaethol bellach yn cysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned fel bod gan dîm partneriaethau fwy amser i ganolbwyntio ar faterion eraill.</li> <li>10. Mae prosiectau datblygu gweithlu, cynhwysiad ariannol, gwrthdlodi a thrais teuluol y Bwrdd Gwasanaeth Lleol bellach yn eu lle ac yn mynd rhagddynt yn dda.</li> <li>11. Mae pecyn gwybodaeth Llywodraethu wedi ei adolygu ac mae Strategaeth Ymgysylltu wedi ei chwblhau ac yn cael ei chyflwyno er cymeradwyaeth.</li> <li>12. Maent yn cwblhau adolygiad o gytundebau partneriaethau.</li> </ol>